

# Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom 2025/26

## Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Cyhoeddwyd 28 Mawrth 2025

# Cynnwys

## Adran


Rhagair ... 3

1. Trosolwg ... 5
2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 ... 9
3. Gwledydd ... 27
4. Sut rydym yn cyflawni ... 31


## Cysylltu


A1. Beth rydym yn ei wneud ... 38

A2. Atodiad i'r Prosiect ... 41

A3. Asesiad effaith ... 53

# Rhagair

Mae'r sector cyfathrebiadau a'r sector digidol yn ddau bwerdy twf yn y DU. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gyfrifol am o leiaf 6% o'n heconomi, gan gynhyrchu cannoedd o biliynau o bunnoedd ar yr un pryd â hybu arloesi a chynhyrchiant ar draws diwydiannau mor amrywiol â gweithgynhyrchu, trafnidiaeth a gofal iechyd. Nid ydynt erioed wedi bod yn bwysicach i fywydau a ffyniant pobl a busnesau ledled y wlad.

Mae Ofcom yn falch o reoleiddio gwasanaethau cyfryngau a thelegyfathrebiadau o'r radd flaenaf y DU, ein system bost ganrifoedd oed a'r tonnau awyr sy'n galluogi amrywiaeth gynyddol o raglenni cyffrous ac arloesol. Mae'n fraint hefyd cael y dasg bwysig o wneud gwefannau ac apiau ar-lein yn fwy diogel i ddefnyddwyr yn y DU.

Yn yr holl feysydd hyn, ein rôl ni yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, lle bo hynny'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Rydym yn diogelu defnyddwyr rhag niwed ac yn eu helpu i wneud synnwyr o farchnadoedd cyfathrebiadau sy'n esblygu'n gyflym. Rydym hefyd yn rheoleiddiwr sy'n annog arloesi ac yn cefnogi'r rhwydweithiau sy'n sail i economi lwyddiannus. Credwn yn gryf fod rheoleiddio da – drwy greu sefydlogrwydd a sicrwydd i fuddsoddwyr – yn cefnogi buddsoddiad a thwf economaidd.

Caiff ein rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod ei hegluro o dan bedair blaenoriaeth sy'n cwmpasu hyd a lled ein cylch gwaith: 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt', 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein', a 'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU'. Bydd ein prif waith yn cynnwys adolygiad pum mlynedd o farchnadoedd telegyfathrebiadau cyfanwerthol y DU; diwygio'r gwasanaeth post cyffredinol; rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith ar yr un pryd â chynnal adolygiad eang o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus; parhau i roi deddfau diogelwch ar-lein newydd y DU ar waith a dechrau cymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio; a sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael i gefnogi twf yn y sectorau gofod a band eang symudol.

Rydym yn gwneud y gwaith hwn yn erbyn cefndir o newid parhaus yn ein sectorau ac ar gyfer defnyddwyr. Mae arloesi yn creu technolegau newydd i ddod â chysylltedd i ddinasyddion ledled y DU, ac nid yw'r galw ar ein sbectrwm radio cyfyngedig erioed wedi bod mor fawr â hyn. Mae gan gynulleidfaoedd Prydeinig fwy o ddewis nag erioed ar draws ystod gynyddol o gynnwys fideo a sain. Mae deallusrwydd artiffisial yn cynnig cyfleoedd newydd i dyfu – yn ogystal â risgiau o ran diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein.

Ochr yn ochr â'n Cynllun Gwaith 2025/26, rydym hefyd yn cyhoeddi ein Cynllun Tair Blynedd sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 - 2027/28.

Mewn amgylchedd domestig a byd-eang sy'n newid, mae perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid yn y DU a thramor yn bwysicach byth. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn deialog gyda grwpiau y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Rydym yn dal i ymgysylltu â Senedd y DU ac yn atebol iddi, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Ar ddechrau'r flwyddyn, fe wnaethom gynnal digwyddiadau ledled y DU fel rhan o'n hymgynghoriad ar y Cynllun Gwaith. Diolch i bawb a ddaeth yno neu a ymatebodd yn ysgrifenedig. Mae'r broses flynyddol hon yn rhoi cipolwg amhrisiadwy i ni ar anghenion a blaenoriaethau'r bobl a'r busnesau

rydym yn eu gwasanaethu, a byddwn yn parhau i wrando arnoch chi wrth i ni geisio cyflawni ein cenhadaeth o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.



**Y Fonesig Melanie Dawes, y Prif Weithredwr**

# 1. Trosolwg

1.1 Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol y DU, mae Ofcom yn gweithio gyda diwydiannau sydd â thechnoleg wrth eu calon. Mae'r rhain yn sectorau sydd wedi sbarduno arloesedd a thwf economaidd sylweddol dros ddegawdau lawer. Mae ein dull rheoleiddio wedi ceisio meithrin a chefnogi twf a tharfu, gan gredu mai cystadleuaeth am syniadau yn ogystal â marchnadoedd yw'r ffordd iawn o sicrhau canlyniadau cynaliadwy i ddinasyddion, defnyddwyr a'r economi.

1.2 Mae gennym rôl i'w chwarae yn esblygiad rhwydweithiau a gwasanaethau, o ddarparu sbectrwm ar gyfer band eang lloeren a symudol, i helpu pobl i fyw bywydau mwy diogel mewn byd ar-lein gyda Deallusrwydd Artiffisial a chynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial.

1.3 Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn 2025/26 tuag at ein cenhadaeth o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, a sut byddwn yn cyflawni hyn.

## Ein sectorau

1.4 Mae rhwydweithiau diogel a dibynadwy yn ganolog i bob agwedd ar ein bywydau digidol ac yn sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd. Roedd ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd diweddaraf yn dangos bod band eang sy'n gallu delio â gigabits bellach ar gael i 25 miliwn o gartrefi (83% o holl gartrefi'r DU). Byddwn yn parhau i gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau drwy ein Hadolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau a fydd yn darparu sefydlogrwydd rheoleiddio ar gyfer y pum mlynedd o fis Ebrill 2026 ymlaen, fel rhan o'r strategaeth 10 mlynedd a nodwyd gennym yn 2021.

1.5 Mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid, rydym am i gynulleidfaoedd barhau i ganfod a chyrchu cynnwys dibynadwy, sy'n cael ei werthfawrogi. Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd mwy o oedolion yn cael newyddion ar-lein nag ar y teledu, ac erbyn hyn mae dros hanner ohonom yn cael ein newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol. Yn 2024, fe waeth y Ddeddf Cyfryngau – y diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth y DU yn y maes hwn ers dros 20 mlynedd – fwrw ymlaen â nifer o argymhellion pwysig yn ein hadolygiad 2021, 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM), gan gynnwys cynigion ynghylch amlygrwydd gwasanaethau ar-alw Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB). Rydym ni nawr yn rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, gan ddiweddaru ein rheolau a chyflawni ein hadolygiad nesaf o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM), sy'n ystyried sut mae cynnal a chryfhau PSM er budd cynulleidfaoedd. Bydd ein canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2025.

1.6 Y llynedd hefyd oedd blwyddyn lawn gyntaf Ofcom fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU, gyda rheolau newydd yn dod i rym o fis Rhagfyr 2024 ymlaen. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi'r Codau a'r canllawiau terfynol ar niwed anghyfreithlon ac rydym wedi tynnu sylw at wasanaethau: mae eu dyletswyddau ar waith ac rydym ni nawr yn disgwyl iddynt weithredu'n gyflym i sicrhau newidiadau i ddefnyddwyr[1]. Erbyn tymor y gwanwyn eleni, byddwn wedi cwblhau ein canllawiau ar gyfer darparwyr cynnwys pornograffig, yn ogystal

[1] I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein bwletin.

â'r mesurau i amddiffyn plant a chyhoeddi ein Codau Ymarfer Amddiffyn Plant terfynol. Yn benodol, mae'r Codau Niwed Anghyfreithlon bellach mewn grym a disgwylir i'r Codau Ymarfer Amddiffyn Plant ddod i rym ym mis Gorffennaf 2025. Pan fydd Cod mewn grym, byddwn yn gallu gorfodi'r dyletswyddau yn y Ddeddf y mae'n ymwneud â hi.

1.7 Mae gan dwf ac arloesedd yn y ffordd mae tonnau awyr y DU yn cael eu defnyddio gan amrywiaeth gynyddol o ddiwydiannau, gan gynnwys sector gofod a lloeren sy'n tyfu, oblygiadau i'n gwaith sbectrwm. Er enghraifft, mae dros 10,000 o loerennau gweithredol mewn orbit erbyn hyn, o'i gymharu ag oddeutu 2,000 yn 2018. Rydym yn canolbwyntio ar ganfod a sicrhau bod sbectrwm ar gael i gefnogi anghenion ein sectorau ac i feithrin gwasanaethau newydd a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Yn benodol, bydd ein harwerthiant sbectrwm yn 2025/26 yn dyfarnu trwyddedau sbectrwm mmWave mewn ardaloedd dwysedd uchel.

## Y flwyddyn i ddod

1.8 Rydym wedi datblygu'r Cynllun hwn yng nghyd-destun Llywodraeth newydd yn y DU, yr ydym yn ymgysylltu â hi i ddeall ei blaenoriaethau wrth iddi nodi ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, sbectrwm a phost. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cyhoeddi ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft ar gyfer Diogelwch Ar-lein ar gyfer ymgynghoriad.

1.9 Mae ein Cynllun Gwaith yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth, 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt', 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein', a 'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU'.

### Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael lle mae eu hangen
- Rhwydweithiau a gwasanaethau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw
- Marchnadoedd effeithlon a chynaliadwy lle mae cystadleuaeth yn darparu dewis, gwerth a gwasanaethau o ansawdd uchel
- Defnyddwyr yn cael eu trin yn deg ar bob cam o daith y cwsmer, beth bynnag fo'u hamgylchiadau
- Gwasanaeth post cynaliadwy a fforddiadwy sydd ar gael ledled y DU, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n esblygu

### Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi

- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth eang o gynnwys, fel cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ledled y DU ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth
- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth o newyddion sy'n briodol gywir, yn briodol ddiduedd ac yn ddibynadwy
- Mae darparwyr cyfryngau yn cystadlu'n deg ac yn agored am gynulleidfaoedd
- Mae cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, a chaiff rhyddid mynegiant ei ddiogelu

### Byw bywyd mwy diogel ar-lein

- Llywodraethu diogelwch cryfach mewn gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o risgiau
- Gwasanaethau ar-lein wedi'u dylunio a'u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheolaeth ystyrlon dros eu profiadau ar-lein
- Mwy o ymddiriedaeth yn y byd ar-lein drwy gael mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau'n cadw defnyddwyr yn ddiogel
- Parhau i sefydlu'r drefn diogelwch ar-lein i fod yn llwyddiant gyda'r bobl, y systemau, y prosesau a'r cysylltiadau cywir sydd ar waith

### Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

- Sicrhau mynediad rhanddeiliaid at sbectrwm a lliniaru ymyriant niweidiol drwy weithgareddau cydymffurfio, trwyddedu, cynllunio a monitro sy'n galluogi gwasanaethau di-wifr
- Canfod a darparu sbectrwm i ddiwallu anghenion newidiol sectorau, gan gynnwys band eang symudol a gwasanaethau gofod
- Esblygu ein fframweithiau rheoli sbectrwm i gefnogi defnydd mwy effeithlon, gwella cyflymder a hyblygrwydd mynediad a gwella argaeledd sbectrwm
- Arwain a dylanwadu ar drafodaethau rhyngwladol am fynediad sbectrwm ar yr un pryd â chynrychioli buddiannau'r DU yn effeithiol

Mae ein gwaith sy'n cefnogi darparu **Rhyngrwyd a Phost y gallwn ddibynnu arnynt** yn 2025/26 yn cynnwys:

- Yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau a'r Adolygiad o'r Marchnadoedd Llais Cyfanwerthol
- Buddsoddiad symudol
- Diogelwch Telegyfathrebiadau a Seilwaith Digidol a pharatoadau ar gyfer mwy o gyfrifoldebau rheoleiddio drwy'r Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid
- Adolygiad o'r Gwasanaeth Post Cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post

Mae ein gwaith sy'n cefnogi **Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi** yn 2025/26 yn cynnwys:

- Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau
- Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus
- Adolygiad cyfnodol y BBC
- Amddiffyn cynulleidfaoedd rhag niwed

Mae ein gwaith sy’n cefnogi **Byw bywyd mwy diogel ar-lein** yn 2025/26 yn cynnwys:

- Sicrhau bod y sector ar-lein yn cael ei reoleiddio’n effeithiol
- Mynd i’r afael â niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant ar-lein, gan gynnwys drwy ymgysylltu a gorfodi goruchwyliol
- Gweithio gyda phartneriaid

Mae ein gwaith sy’n cefnogi **Galluogi di-wifr yn economi’r DU** yn 2025/26 yn cynnwys:

- Ymgysylltu rhyngwladol ar reoli sbectrwm
- Cefnogi arloesedd drwy sicrhau bod sbectrwm ar gael yn amserol a mwy o rannu
- Effeithlonrwydd parhaus drwy alluogrwydd rheoli sbectrwm uwch

## Ein gwaith ategol

1.10 Er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i fuddsoddi a datblygu ein sgiliau a’n galluogrwydd ym mhob rhan o’r sefydliad. Mae ein rhaglen ymchwil yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn i ni i helpu i lywio ein penderfyniadau polisi, ac mae ein rhaglen sganio’r gorwel yn ein helpu i ddeall datblygiadau allweddol a thueddiadau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn mabwysiadu prosesau mewnol mwy ystwyth, gan ddefnyddio data a thechnolegau newydd yn well ym mhob rhan o’n gwaith.

1.11 Yn allanol, mae ein cydweithrediad â rheoleiddwyr yn hanfodol drwy ein cysylltiadau rhyngwladol cynyddol, a’n gwaith gyda rheoleiddwyr eraill yn ddomestig mewn fforymau fel y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF). Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio ystod eang o bartneriaethau sefydledig gyda'r byd academaidd, diwydiant, elusennau ac arbenigwyr eraill.

# 2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

2.1 Fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ein cenhadaeth yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae ein dyletswyddau a'n swyddogaethau wedi'u nodi mewn nifer o Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall (mae crynodeb llawn yn Atodiad 1), a'n prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â materion cyfathrebiadau, lle bo hynny'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.

2.2 Fel rheoleiddiwr statudol annibynnol, mae ein Cynllun Gwaith yn seiliedig ar y dyletswyddau hyn, Datganiad Blaenoriaethau Strategol a chanllawiau statudol[2] Llywodraeth y DU, a chyfoeth o dystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil, dadansoddi, dealltwriaeth ac ymgysylltu cadarn. Mae'r Cynllun Gwaith yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth: **'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt', 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein',** a **'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU'.**

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol

2.3 Pan fydd Llywodraeth y DU yn nodi ei blaenoriaethau strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post, neu ar gyfer materion diogelwch ar-lein, mewn Datganiad Blaenoriaethau Strategol, rhaid i ni ystyried y datganiad wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.[3]

2.4 Mae Llywodraeth newydd y DU wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu dynodi Datganiad Blaenoriaethau Strategol newydd ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post, a Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer materion diogelwch ar-lein. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft ar gyfer Diogelwch Ar-lein. Byddwn yn cynnwys adolygiad o'r hyn rydym wedi'i wneud o ganlyniad i'r Datganiad(au) yn ein Hadroddiad Blynyddol.

[2] Mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU sy'n nodi sut gall rheoleiddwyr sydd o fewn cwmpas y ddyletswydd twf gefnogi twf economaidd cynaliadwy yn well, drwy'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud a'r ffordd maen nhw'n rheoleiddio. (Gweler Atodiad 1 am fanylion dyletswyddau Ofcom, gan gynnwys y ddyletswydd twf.)
[3] Yn 2019, dynododd Llywodraeth y DU ar y pryd Ddatganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli'r sbectrwm radio a gwasanaethau post.Nid oes unrhyw Ddatganiadau o'r fath wedi cael eu dynodi eto ar gyfer materion diogelwch ar-lein, ond mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft.

## Ein blaenoriaethau

Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion ein pedair blaenoriaeth, a sut bydd ein prosiectau a'n rhaglenni yn ystod 2025/26 yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

Mae rhestr gynhwysfawr o'r gwaith prosiect cysylltiedig wedi'i nodi yn 'Atodiad Prosiect' y Cynllun Gwaith (Atodiad 2).

# Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt

**Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod gan ddefnyddwyr yn y DU fynediad at rwydweithiau ffeibr llawn, o ansawdd uchel, sy'n gallu delio â gigabits, ac argaeledd gwasanaethau post a chyfathrebiadau. Rydym yn canolbwyntio ar wella diogelwch a chadernid rhwydweithiau i fodloni gofynion dinasyddion.**

2.5 Ein nod yw diogelu buddiannau defnyddwyr a galluogi pawb i gael gafael ar wasanaethau a rhwydweithiau cyflym a dibynadwy. Dylai ein marchnadoedd cyfathrebiadau ddarparu dewis a gwerth i ddefnyddwyr, gan alluogi ystod eang o wasanaethau digidol sy'n sbarduno twf economaidd. Mae arnom angen gwasanaeth post cyffredinol cynaliadwy sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau post fforddiadwy a dibynadwy i'r rheini sydd eu hangen.

2.6 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael lle mae eu hangen.
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw.
- Marchnadoedd effeithlon a chynaliadwy lle mae cystadleuaeth yn darparu dewis, gwerth a gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Defnyddwyr yn cael eu trin yn deg ar bob cam o daith y cwsmer, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.
- Gwasanaeth post cynaliadwy a fforddiadwy sydd ar gael ledled y DU, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n esblygu.

2.7 Mae sicrhau bod seilwaith digidol ar gael lle mae ei angen yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Eleni byddwn yn cwblhau'r Adolygiad Mynediad Telegyfathrebiadau, a fydd yn gosod y fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031, gyda'r nod o hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn band eang sy'n gallu delio â gigabits. Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheolau y gwnaethom eu gosod yn Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol, a fydd ar waith tan fis Mawrth 2026, i sicrhau bod cystadleuaeth yn cael ei chyflawni'n deg, gan gynnwys drwy waith parhaus ein Huned Monitro Openreach.

2.8 Wrth i risgiau esblygu oherwydd datblygiadau technolegol a geo-wleidyddol, mae bygythiadau diogelwch sy'n wynebu rhwydweithiau a gwasanaethau telegyfathrebiadau yn y DU yn parhau i gynyddu o ran nifer a chymhlethdod. Er mwyn sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau cyhoeddus yn ddiogel, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chwmnïau telegyfathrebiadau i geisio gwella eu diogelwch a monitro eu cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau diogelwch. Bwriad y gwaith hwn yw sicrhau bod gan ddarparwyr cyhoeddus fesurau priodol a chymesur ar waith i nodi a lleihau'r risgiau o beryglon diogelwch, a'u bod yn barod ar gyfer risgiau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), gwerthwyr offer a'r gymuned safonau.




2.9 Mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i'r galw newid o lythyrau i barseli. Ein nod yw sicrhau bod rheoleiddio'n cefnogi gwasanaethau post fforddiadwy a dibynadwy ledled y DU, sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Mae angen i ni hefyd ystyried cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd y gwasanaeth post cyffredinol yn unol ag ymddygiad newidiol defnyddwyr. Mae ein gwaith presennol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ystyried sut dylid diwygio'r gwasanaeth cyffredinol ar gyfer llythyrau. Yn y dyfodol, byddwn yn edrych ymhellach ar sut mae sicrhau bod post yn parhau i fod yn fforddiadwy, a bod y Post Brenhinol yn cael ei gymell i ddarparu gwasanaeth mwy dibynadwy.

2.10 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein prosiectau a'n rhaglenni allweddol i gyflawni blaenoriaeth 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt' yn cynnwys:

- **Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau:** Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol a osodwyd gennym yn 2021 yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar y fframwaith rheoleiddio newydd, a fydd yn nodi'r rheoliadau a fydd yn berthnasol rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Bydd hyn yn cynnwys y marchnadoedd ar gyfer mynediad at seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad at linellau ar brydles a chysylltedd rhyng-gyfnewid.
- **Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau (yn Ardal Hull):** Mae'r fframwaith rheoleiddio ar wahân, presennol a osodwyd gennym yn 2021 yn dod i ben ym mis

Hydref 2026. Bydd yr adolygiad hwn yn cwmpasu’r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn ardal Hull rhwng mis Tachwedd 2026 a mis Hydref 2031. Byddwn yn asesu a yw’r fframwaith a sefydlwyd gennym yn 2021 yn dal i fod yn briodol.

- **Adolygiad o'r Marchnadoedd Llais Cyfanwerthol:** Bydd yr Adolygiad o'r Marchnadoedd Llais Cyfanwerthol yn asesu ein gwaith o reoleiddio dull terfynu galwadau sy’n cefnogi darparu gwasanaethau llinell dir a ffonau symudol yn y DU. Byddwn yn rhoi rheoliadau ar waith a fydd yn berthnasol am bum mlynedd o fis Ebrill 2026 ymlaen.

- **Adolygiad Terfynu SMS A2P Cyfanwerthol:** Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn nodi ein cynigion i gapio’r prisiau cyfanwerthol a godir gan weithredwyr symudol ar gyfer anfon negeseuon testun, a elwir yn SMS Ap-i-Berson (‘A2P’), sy’n cael ei ddefnyddio’n eang gan fusnesau a sefydliadau ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus i anfon negeseuon testun mewn swmp at ddefnyddwyr a’r cyhoedd ehangach (ee negeseuon atgoffa am apwyntiadau ysbyty, hysbysiadau danfon). Ein nod yw cyhoeddi datganiad yn Ch2 2025/26.

- **Buddsoddiad symudol**: Byddwn yn dechrau rhaglen waith i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad yn y farchnad symudol, gan gynnwys drwy rymuso defnyddwyr i ddewis y rhwydwaith a’r gwasanaeth sydd fwyaf addas i’w hanghenion. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i helpu i fynd i’r afael â meysydd lle nad yw’r farchnad yn darparu’r seilwaith symudol sydd ei angen ar y wlad ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb yr wybodaeth am y perfformiad a’r ddarpariaeth symudol sydd ar gael. Byddwn yn edrych ar sut gall gwahanol ffynonellau data yn y byd go iawn roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ei ddisgwyl. Byddwn yn ystyried sut gallwn wella sut mae’r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a’i chyfleu, er mwyn i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid allu ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Byddwn yn dechrau monitro cydymffurfiad â’r ateb buddsoddi y mae Vodafone a Three (sydd wedi uno) wedi ymrwymo iddo, sy’n cael ei gynnwys yn eu trwyddedau sbectrwm perthnasol.

- **Diogelwch Telegyfathrebiadau a Seilwaith Digidol:** Gan ddefnyddio ein pwerau, a gyflwynwyd gan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth darparwyr cyfathrebiadau â’r fframwaith diogelwch newydd. Yn unol â’n swyddogaeth adrodd newydd (a.105Z) byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol i’r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiogelwch telegyfathrebiadau. Byddwn yn gweithredu unrhyw gyfarwyddyd monitro a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU o dan y fframwaith gwerthwyr risg uchel. O dan gyfrifoldebau ein Rheoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth, byddwn yn parhau i fonitro bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn y sector seilwaith digidol yn rheoli eu risgiau diogelwch drwy raglen sicrwydd, sy’n cynnwys casglu gwybodaeth yn ffurfiol. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein swyddogaeth monitro digwyddiadau ac yn cynnal ein cynllun profion treiddio gwirfoddol (TBEST) ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â gwerthwyr a chyrff safonau technegol i sicrhau ein bod yn cynnal dealltwriaeth ehangach o’r ecosystem

telegyfathrebiadau sy'n esblygu. Byddwn yn paratoi ar gyfer rhagor o gyfrifoldebau rheoleiddio drwy'r Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid.

- **Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar gyfer y post a rheoleiddio'r gwasanaeth post:** Rydym yn cydnabod yr angen brys i gysoni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post ag anghenion ei ddefnyddwyr, ar yr un pryd ag ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar gynigion i ddiwygio'r gwasanaeth post cyffredinol a safonau ansawdd gwasanaeth, a newidiadau cysylltiedig i rwymedigaethau mynediad, gyda'r nod o gyhoeddi penderfyniad yn Ch2 2025/26. Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar ein dull gweithredu o ran fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn Ch4 2025/26, cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027.

2.11 Yn ogystal â'r meysydd ffocws a nodir uchod, mae gennym hefyd raglenni parhaus sy'n cefnogi ein gwaith yn y maes hwn:

- **Adrodd ar ddata:** Byddwn yn parhau i adrodd ar ddarpariaeth, nifer, defnydd ac argaeledd rhwydweithiau band eang a symudol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Byddwn hefyd yn adrodd ar gynlluniau darparwyr sy'n edrych tua'r dyfodol i gyflwyno rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits.

- **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer Band eang:** Mae gan bob cartref a busnes yn y DU hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y Rhwymedigaeth hon yn y dyfodol.

- **Mynd i'r afael â galwadau a negeseuon testun sgam:** Byddwn yn parhau i ddarparu ein strategaeth i'w gwneud yn anodd i sgamwyr niweidio defnyddwyr drwy ddefnyddio rhwydweithiau telegyfathrebiadau'r DU. Byddwn yn defnyddio ein rheolau presennol i darfu ar sgamiau, cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws sectorau i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ac ystyried a oes angen mesurau pellach i ddiogelu defnyddwyr rhag sgamiau.

- **Teitlau Byd-eang:** Byddwn yn parhau â'n gwaith i fynd i'r afael â signalau maleisus sy'n deillio o Deitlau Byd-eang y DU, gan godi pryderon ynghylch diogelwch rhwydweithiau. Mae'r Teitlau hyn yn cael eu creu o rifau symudol y DU gan weithredwyr symudol i alluogi mynediad at y rhwydwaith signalau symudol byd-eang. Maent fel arfer yn sail i ddarparu gwasanaethau symudol dilys, ond mae tystiolaeth eu bod weithiau'n cael eu camddefnyddio, er enghraifft er mwyn dod o hyd i bobl yn anghyfreithlon a'u tracio gan ddefnyddio eu ffonau symudol ar rwydweithiau eraill. Ar ôl cyhoeddi ein datganiad ym mis Ebrill 2025 sy'n nodi unrhyw reolau newydd neu gryfach i fynd i'r afael â chamddefnyddio Teitlau Byd-eang, byddwn yn monitro'r broses o weithredu unrhyw newidiadau i reolau, i sicrhau bod gweithredwyr gwael yn cael eu hatal rhag defnyddio'r rhwydwaith signalau symudol byd-eang.

- **Trawsnewid digidol:** Mae rheoli'r broses o symud oddi wrth hen wasanaethau fel gwasanaethau ffôn llinell dir rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) traddodiadol a rhwydweithiau symudol 2G/3G yn allweddol i sicrhau bod pobl yn parhau i elwa o rwydweithiau mwy effeithiol a dibynadwy. Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai agored i niwed, yn cael eu cefnogi a'u diogelu drwy'r cyfnodau pontio hyn. Ar ben hynny, o ystyried y newid o ddarlledu traddodiadol i deledu a ddarperir ar y rhyngrwyd (IPTV), rydym yn cefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried canfyddiadau ein hadroddiad y llynedd ac yn gweithio tuag at nodi safbwynt ar Ddyfodol Teledu Daearol Digidol. Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai agored i niwed, yn cael eu cefnogi a'u diogelu drwy'r cyfnodau pontio hyn. Byddwn yn ystyried pa egwyddorion cyffredinol sydd ar gael ar draws trawsnewidiadau digidol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, i'r diwydiant ac i dwf economaidd.
- **Monitro cydymffurfiaeth â rheolau Diogelu Defnyddwyr:** Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein hymyriadau diogelu defnyddwyr a'n mentrau gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr.
- **Adolygiad o ddulliau amgen o ddatrys anghydfod mewn telegyfathrebiadau:** Mae dulliau amgen o ddatrys anghydfod yn darparu mesur diogelwch pwysig drwy asesiad annibynnol a diduedd o gwynion heb eu datrys, rhwng defnyddiwr a'i ddarparwr. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad drwy asesu gallu defnyddwyr i gael mynediad at ddulliau amgen o ddatrys anghydfod, asesu taith defnyddwyr drwy'r prosesau hyn a throsolwg Ofcom o'r cynlluniau.
- **Diogelu defnyddwyr agored i niwed a'r rheini sydd ar incwm isel:** Byddwn yn parhau i fonitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan gynnwys monitro dangosyddion fforddiadwyedd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar argaeledd tariffau cymdeithasol a ffigurau defnydd fel rhan o'r adroddiad ar dueddiadau prisio.
- **Gwasanaethau cyfradd premiwm:** Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth â'r fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer gwasanaethau a godir ar filiau ffôn defnyddwyr. Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael eu diogelu wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio o ddydd i ddydd o'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA) i Ofcom.
- **Monitro'r post:** Byddwn yn parhau â'n gwaith monitro ar draws y sector post, a fydd yn edrych ar effaith rhwymedigaethau ar y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion, y rhwymedigaeth ar weithredwyr i sicrhau bod cwsmeriaid anabl yn cael eu trin yn deg, yn ogystal â chynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol a chynaliadwyedd tymor hwy y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer post.
- **Marchnadoedd digidol:** Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ac Ofcom yn nodi sut byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod hwnnw mewn marchnadoedd digidol. Fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn ymgysylltu â'r Awdurdod a'i Uned Marchnadoedd Digidol, lle mae swyddogaethau'r Uned honno'n effeithio ar ein cylch gwaith rheoleiddio ac i'r gwrthwyneb.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi


Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled y DU yn gallu parhau i gael gafael ar amrywiaeth o gyfryngau darlledu ac ar-alw a'u bod yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol. Wrth i bobl symud fwyfwy ar-lein ar gyfer adloniant a gwybodaeth, mae'n arbennig o bwysig eu bod yn gallu cael gafael ar newyddion a ddarlledir sy'n ddibynadwy, yn gywir ac yn ddiduedd.

2.12 Mae'r sector darlledu ac ar-alw yn rhan hanfodol o ddiwylliant ac economi'r DU ac mae'n newid yn gyson o ganlyniad i gystadleuwyr byd-eang, cydgyfeirio digidol ac arloesi technolegol. Ein nod yw sicrhau bod pob cynulleidfa yn gallu parhau i ganfod a mwynhau amrywiaeth eang o gynnwys o'r DU sy'n berthnasol ac o ansawdd uchel, boed hynny ar deledu a radio wedi'u hamserlennu, neu ar wasanaethau wedi'u ffrydio ac ar-alw.

2.13 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', mae ein rhaglen waith yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth eang o gynnwys, fel cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ledled y DU ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth.
- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth o newyddion sy'n briodol gywir, yn briodol ddiduedd ac yn ddibynadwy.
- Mae darparwyr cyfryngau yn cystadlu'n deg ac yn agored am gynulleidfaoedd.
- Mae cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, ac mae rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu.

2.14 Mae cefnogi'r sector i addasu i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd a sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn parhau i fod yn effeithiol yn un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Y llynedd, cafwyd y diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth darlledu'r DU ers 20 mlynedd. Mae Deddf Cyfryngau 2024 ("y Ddeddf Cyfryngau") yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom yn ein hadolygiad diwethaf o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2021. Byddwn yn parhau i roi'r mesurau deddfwriaethol newydd hyn ar waith drwy gydol 2025/26, gan gynnwys drwy sicrhau amlygrwydd priodol i gynnwys byw ac ar-alw Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, ymestyn amddiffyniadau safonau cynnwys i wasanaethau fideo ar-alw perthnasol (hy y rheini sy'n ddarostyngedig i'r Cod Fideo Ar-alw newydd a'r gofynion hygyrchedd newydd) a sicrhau newyddion lleol ar wasanaethau radio ledled y DU.




2.15 Mae cyflymder parhaus y newid yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i asesu a oes angen rhagor o ddiwygio i ddiogelu Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus hanfodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad nesaf o'r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2025/26, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd i gynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac argaeledd newyddion cywir o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ddibynnu arnynt pan fyddant yn cael gafael arnynt.

2.16 Byddwn yn parhau i orfodi rheolau safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio a gwasanaethau fideo ar-alw perthnasol. Bydd diogelu rhyddid mynegiant yn dal i fod yn ystyriaeth bwysig, a byddwn yn blaenoriaethu'r dasg o orfodi rheolau sy'n ymwneud â niwed posibl i gynulleidfaoedd.

2.17 Ein prif brosiectau dros y flwyddyn nesaf i gefnogi ein blaenoriaethau yw:

- **Rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith:** Rydym wedi cyhoeddi map ar gyfer gweithredu, ond mae trosolwg o'r prif brosiectau isod:

  - **Diweddaru gofynion rheoleiddio Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus:** Yn dilyn ymgynghoriadau ddechrau 2025, byddwn yn cwblhau canllawiau ar gyfer datganiadau polisi rhaglenni Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a chomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol ac yn nodi ein dull gweithredu diwygiedig ar gyfer cwotâu yn Ch2 2025/26.
  - **Digwyddiadau Rhestredig:** Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer gweithredu newidiadau'r Ddeddf Cyfryngau i'r drefn Digwyddiadau Rhestredig yn Ch1 2025/26, ac wedyn yn cyhoeddi ein datganiad terfynol yn Ch3 2025/26.
  - **Amlygrwydd ac argaeledd gweithredwyr Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus:** Byddwn yn cyflwyno cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pa lwyfannau teledu ddylai fod yn destun rheoleiddio, ac yn ystyried ceisiadau gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus i'w gweithredwyr elwa o'r drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd. Yn Ch3 2025/26, byddwn hefyd yn ymgynghori ar god

ymarfer a chanllawiau ar gyfer llwyfannau a Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ynghylch sut mae cydymffurfio â'r drefn, sydd hefyd yn cynnwys gofynion hygyrchedd ar gyfer llwyfannau.

  - **Adroddiad ar gyflwr y farchnad fideo ar-alw:** Byddwn yn paratoi adroddiad ar weithrediad y farchnad fideo ar-alw yn y DU, gan ymateb i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried adroddiad Ofcom ac yna'n gwneud rheoliadau a fydd yn pennu pa wasanaethau fydd yn cael eu dynodi'n wasanaethau 'Haen 1' (hy y rheini sy'n ddarostyngedig i'r Cod Fideo Ar-alw newydd a'r gofynion hygyrchedd newydd). Byddwn wedyn yn ymgynghori ar gyflwyno gofynion ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw o fewn y cwmpas fel y nodir isod.
  - **Cod Fideo Ar-alw newydd ac adolygiad o fesurau Diogelu Cynulleidfaoedd ar fideo ar-alw:** byddwn yn ymgynghori ar god safonau cynnwys newydd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw Haen 1 ac yn ei gyflwyno yn Ch2 2025/26, ac yn adolygu mesurau diogelu a ddefnyddir ar wasanaethau fideo ar-alw, gan gynnwys cynnal ymchwil i agweddau cynulleidfaoedd.
  - **Cod Hygyrchedd Fideo Ar-alw:** byddwn yn ymgynghori ar god newydd sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw Haen 1 yn eu gwneud yn hygyrch i bobl anabl ac yn cyflwyno'r cod hwnnw yn 2025/26.
  - Rheoleiddio radio: Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar ofynion newyddion a gwybodaeth lleol newydd ar gyfer radio masnachol analog a gofynion newydd ar gyfer amlblecsau radio digidol yn Ch2 2025/26.
  - **Cynorthwywyr llais:** Byddwn yn rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pa wasanaethau dethol radio y dylid eu dynodi yn Ch1 2025/26. Byddwn yn ymgynghori ar broses i ddarparwyr radio roi gwybod i ni am y ffrydiau radio ar-lein a allai elwa o'r ddeddfwriaeth ac yn rhoi'r broses honno ar waith. Byddwn yn ymgynghori ar god ymarfer ar gyfer gwasanaethau dethol radio dynodedig yn Ch3 2025/26.

- **Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus:** Mae ein hadolygiad yn edrych ar sut gellir cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth o gynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad yn Ch2 2025/26. Gallai hyn gynnwys meysydd lle rydym yn bwriadu ymgynghori ar newidiadau i'n rheolau neu nodi lle gallai fod angen rhagor o ymyrraeth gan Lywodraeth y DU.
- **Gweithredu newidiadau o Adolygiad Canol Tymor y BBC:** Ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC, byddwn yn diweddaru ein canllawiau ar gystadleuaeth; yn datblygu Cod Deunydd Ar-lein y BBC ac yn cynnal adolygiad rheolaidd o benderfyniadau Uned Cwynion Gweithredol y BBC nad ydynt wedi cael eu huwchgyfeirio i Ofcom.
- **Newidiadau arfaethedig i wasanaethau sain y BBC:** Fel rhan o'n gwaith parhaus o fonitro perfformiad y BBC ac effaith y BBC ar y farchnad, byddwn yn cyhoeddi canlyniad ein hasesiad cystadleuaeth y BBC o ran pedair gorsaf newydd arfaethedig

ar DAB+ y BBC a newidiadau arfaethedig i BBC Radio 5 Sports Extra erbyn mis Gorffennaf 2025.

- **Cynnal Adolygiad Cyfnodol y BBC:** Byddwn yn cyflawni'r Adolygiad Cyfnodol nesaf cyn i Siarter y BBC ddod i ben ym mis Rhagfyr 2027, ac rydym yn disgwyl ei gwblhau erbyn Ch4 2025/26.
- **Hysbysebu Bwyd Llai Iach:** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i baratoi ar gyfer gweithredu a gorfodi cyfyngiadau ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach, a ddaw i rym ym mis Hydref 2025.

2.18 Mae ein Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys rhaglen barhaus o weithgareddau i sicrhau'r canlyniadau hyn i bob cynulleidfa:

- **Parhau i osod a gorfodi safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio sy'n cael eu darlledu:** Byddwn yn blaenoriaethu achosion sy'n ymwneud â niwed posibl i'r gynulleidfa, fel cynnwys sy'n debygol o gymell troseddu ac iaith casineb heb gyd-destun. Yn ogystal â sicrhau didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn materion cyfoes. Ein nod yw adnewyddu ein Canllawiau ar y Cod Darlledu a'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cod Fideo Ar-alw newydd sy'n deillio o'r Ddeddf Cyfryngau yn Ch3 2025/26.
- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio:** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio masnachol digidol a gwasanaethau radio cymunedol digidol a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Byddwn yn ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'r trwyddedau hynny lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch1 2025/26, yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'n Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer ymchwilio i drwyddedau darlledu.
- **Cefnogi llwyfannau ar gyfer gwasanaethau darlledu:** Byddwn yn parhau i drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB ar raddfa fach ledled y DU ac yn cwblhau'r broses ar gyfer adnewyddu'r trwyddedau teledu lleol.
- **Hygyrchedd gwasanaethau teledu:** Byddwn yn parhau i orfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad wrth ddarlledu – isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion. Bydd ein hadroddiad blynyddol ar hygyrchedd teledu yn cael ei gyhoeddi yn Ch1 2025/26.
- **Amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu:** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y maes hwn, ac yn adrodd yn Ch3 2025/26 ar amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr yn y DU.
- **Monitro perfformiad y BBC ac effaith ar y farchnad:** Byddwn yn parhau i asesu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion penodol yn y Cytundeb Fframwaith, y Fframwaith Gweithredu ac o dan y Drwydded Weithredu. Byddwn hefyd yn adrodd ar berfformiad y BBC yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn Ch3 2025/26.
- **Dyfodol Dosbarthu Teledu:** Byddwn yn cefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried canfyddiadau ein hadroddiad y llynedd ac yn gweithio tuag at nodi safbwynt ar Ddyfodol Teledu Daearol Digidol. Byddwn yn darparu cyngor technegol ar faterion

sy’n effeithio ar gynulleidfaoedd, cynllunio a rheoli sbectrwm, y goblygiadau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r diwydiant teledu ehangach.

# Rydyn ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein



Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sefydlu'r drefn diogelwch ar-lein i barhau â'n gwaith o adeiladu bywyd mwy diogel ar-lein ar gyfer holl ddefnyddwyr y DU, yn enwedig plant. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu defnyddwyr, gan barhau i weithredu'r drefn ar yr un pryd.

2.19 Ein nod yw creu bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU, yn enwedig plant. Ers pasio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar sefydlu sylfeini'r drefn. Mae'r Ddeddf yn gymhleth ac yn fanwl, ac mae dadleuon yn parhau am lawer o'r niwed a'r materion y mae'n mynd i'r afael â nhw. Rydym wedi blaenoriaethu ein gwaith i weithredu'r meysydd rydym yn disgwyl y byddant o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yn y DU cyn gynted â phosibl, fel yr amlinellir yn ein Diweddariad Cynnydd ar Ddiogelwch Ar-lein.

2.20 Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi'r Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon cyntaf. Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau i ddarparwyr pornograffi ar-lein ynghylch sicrwydd oedran, ochr yn ochr â'n canllawiau ar asesiadau mynediad plant y mae'n rhaid i bob gwasanaeth chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu cyflawni. Byddwn yn cyhoeddi'r Codau Ymarfer Amddiffyn Plant terfynol ym mis Ebrill 2025. Dyma pryd y bydd y dyletswyddau cyfreithiol yn dod i rym o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, gan ddechrau gyda'r asesiadau risg y mae'n rhaid i wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu cynnal. Am y tro cyntaf yn y DU, bydd angen i gwmnïau technoleg ddeall pwy yw eu defnyddwyr, y risgiau y mae eu gwasanaethau yn eu peri, a'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn.

2.21 Bydd ein tîm goruchwylio pwrpasol yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant ac yn sicrhau bod darparwyr yn cymryd y camau priodol i fynd i'r afael â'r niwed sy'n bodoli ar eu gwasanaethau. Rydym yn disgwyl i wasanaethau gymryd camau ac yn barod i ddefnyddio ein pwerau gorfodi lle rydym yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio.

2.22 Byddwn hefyd yn dechrau rhoi'r gofynion rheoleiddio ychwanegol ar waith sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Nawr bod y Senedd wedi cymeradwyo'r trothwyon categoreiddio, mae ein gwaith i gwblhau'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio yn mynd rhagddo a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. Byddwn wedyn yn rhoi'r drefn adrodd ar dryloywder ar waith yn gyflym. Rydym yn disgwyl i adroddiadau tryloywder fod yn effeithiol o ran gwella diogelwch defnyddwyr drwy dynnu sylw at weithredoedd gwasanaethau - ac yn benodol drwy ddarparu tystiolaeth gadarn am effaith eu mesurau diogelwch.

## Mae diogelu plant ar-lein yn bwysicach nag erioed

**O'i gymharu â'r llynedd, mae cyfran uwch o'r holl blant 5-7 oed yn defnyddio apiau/safleoedd i wneud pob un o'r gweithgareddau hyn:**

| Defnyddio apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol | Anfon negeseuon neu wneud galwadau llais/fideo | Gwylio apiau neu safleoedd ffrydio byw | Chwarae gemau ar-lein |
|---|---|---|---|
| ▲ 38% | ▲ 65% | ▲ 50% | ▲ 41% |
| 30% yn 2023 | 59% yn 2023 | 39% yn 2023 | 34% yn 2023 |



2.23 Rydym hefyd yn gwybod bod gan ddefnyddwyr gwybodus a grymus ran allweddol i'w chwarae o ran hybu diogelwch ar-lein, a byddwn yn parhau â'n gwaith hirsefydlog o wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.

2.24 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein', ceisiwn sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Llywodraethu diogelwch cryfach mewn gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o risgiau.
- Gwasanaethau ar-lein wedi'u dylunio a'u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg.
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael rheolaeth ystyrlon dros eu profiadau ar-lein.
- Mwy o ymddiriedaeth yn y byd ar-lein drwy gael mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau'n cadw defnyddwyr yn ddiogel.
- Parhau i sefydlu'r drefn Diogelwch Ar-lein i fod yn llwyddiant gyda'r bobl, y systemau, y prosesau a'r cysylltiadau cywir sydd ar waith.

2.25 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- **Mynd i'r afael â niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant ar-lein:** Mae'r Cod Ymarfer ar Niwed Anghyfreithlon mewn grym ac fe ddylai'r Cod Ymarfer Amddiffyn Plant ddod i rym eleni. Byddwn wedyn yn gallu gorfodi pan na fydd darparwyr yn cymryd y camau angenrheidiol. Byddwn yn adeiladu ar y Codau cyntaf hyn dros amser, gan ddechrau gydag ymgynghoriad ar fesurau ychwanegol i ddiogelu defnyddwyr yn ystod gwanwyn 2025. Byddwn hefyd yn cwblhau ein Canllawiau ar ddiogelwch menywod a merched ar-lein ddiwedd 2025.
- **Sicrhau cydymffurfiaeth:** Rydym eisoes yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau – gan gynnwys y gwasanaethau mwyaf yn ogystal â gwasanaethau llai sy'n peri risgiau penodol – i asesu a gwella eu mesurau diogelwch ac i sicrhau eu bod yn cyflawni eu

dyletswyddau newydd. Rydym yn paratoi ar gyfer camau gorfodi cynnar pan fyddwn yn canfod diffyg cydymffurfio sy'n achosi niwed difrifol i ddefnyddwyr yn y DU. Er enghraifft, rydym eisoes wedi lansio rhaglenni gorfodi i amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys pornograffig ac i fonitro cydymffurfiaeth gwasanaethau â'u dyletswyddau newydd o ran asesu risg cynnwys anghyfreithlon a chadw cofnodion. Ar ben hynny, mae gennym raglen waith sydd wedi'i neilltuo i helpu pob darparwr gwasanaeth o fewn cwmpas y drefn i ddeall a chyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau newydd. Yn ogystal â lansio offer digidol i helpu darparwyr gwasanaethau i gynnal asesiadau risg a nodi mesurau pa Godau y dylent eu cymryd.

- **Dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio:** Byddwn yn dechrau sefydlu'r rheolau ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio ar ôl cwblhau'r gofrestr, a disgwyliwn i hynny ddigwydd yn ystod haf 2025. Byddwn yn dechrau cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft i wasanaethau yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio, a chyhoeddi hysbysiadau tryloywder terfynol ar ôl hynny. Rydym yn disgwyl i'r adroddiadau tryloywder cyntaf sy'n orfodol yn ein hysbysiadau gael eu cyhoeddi gan wasanaethau tua diwedd 2025. Rydym hefyd yn anelu at gyhoeddi Codau Ymarfer drafft a chanllawiau drafft ynghylch dyletswyddau ychwanegol ar wasanaethau wedi'u categoreiddio ddechrau 2026.

- **Sefydlu'r drefn:** Rydym yn parhau i ddatblygu ein galluoedd technolegol a data, sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o reoleiddio'r sector ar-lein yn effeithiol. Ar ben hynny, fel gyda'n sectorau eraill sy'n cael eu rheoleiddio, bydd ffioedd y diwydiant yn ariannu cost rheoleiddio gwasanaethau ar-lein, ac rydym yn cymryd camau i ddechrau gweithredu'r drefn ffioedd, gyda'r disgwyliad y bydd anfonebau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad ar opsiynau i wella mynediad ymchwilwyr at ddata ym mis Gorffennaf 2025.

- **Gweithio gyda phartneriaid:** Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr partner yn y DU fel rhan o'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), a chyda rheoleiddwyr rhyngwladol, gan gynnwys drwy'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) - dan gadeiryddiaeth Ofcom ar hyn o bryd - a'n cytundeb cydlynu â'r Comisiwn Ewropeaidd. Ein nod yw cysoni ein dulliau rheoleiddio a'n canllawiau lle bo hynny'n briodol, i hwyluso cydymffurfiaeth cwmnïau â'r holl reolau perthnasol. Rydym hefyd yn datblygu proses uwch-gwynion y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i alluogi endidau cymwys i dynnu sylw at faterion systemig sy'n codi ar draws gwasanaethau, neu mewn amgylchiadau eithriadol, ar un gwasanaeth.

2.26 Rydym wedi bod yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn y DU ers 2020. Mae'r rheolau ar y llwyfannau mewn grym o hyd nes bydd y drefn yn cael ei disodli gan y rheolau diogelwch ar-lein ehangach. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer y drefn llwyfannau rhannu fideos a oedd yn crynhoi sut rydym wedi rheoleiddio gwasanaethau hyd yma, a'n blaenoriaethau ar gyfer gweddill y drefn. Gan edrych ymlaen at 2025/26, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Pontio i Ddiogelwch Ar-lein:** Byddwn yn parhau i gysoni blaenoriaethau'r llwyfannau rhannu fideos â'r blaenoriaethau strategol diogelwch ar-lein ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddwn yn sicrhau bod yr holl waith rydym yn ei wneud yn ystod gweddill y

drefn llwyfannau rhannu fideos yn gydnaws â'r drefn Diogelwch Ar-lein, ac yn paratoi llwyfannau rhannu fideos sydd wedi cael eu hysbysu ar gyfer y pontio.

- **Goruchwylio llwyfannau:** Byddwn yn adeiladu ar y cysylltiadau goruchwylio effeithiol rydym wedi'u rhoi ar waith gyda llwyfannau. Byddwn yn parhau i fynnu bod llwyfannau'n gwneud gwelliannau i'w gwasanaethau o dan reoliadau llwyfannau rhannu fideos, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch ar-lein ac yn paratoi ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein.
- **Gorfodi:** Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hystod lawn o bwerau gorfodi i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r drefn llwyfannau rhannu fideos.
- **Tryloywder y diwydiant:** Byddwn yn parhau, lle bo hynny'n briodol, i gyhoeddi allbynnau sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut mae llwyfannau rhannu fideos yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y drefn llwyfannau rhannu fideos.

2.27 Bydd Llywodraeth y DU yn pennu dyddiad ar gyfer diddymu'r rheolau llwyfannau rhannu fideos, y disgwyliwn iddynt fod ar ôl i'r Codau Diogelwch ar-lein ar gyfer Amddiffyn Plant ddod i rym, yn ystod haf 2025. Bydd Ofcom yn helpu darparwyr llwyfannau rhannu fideos i symud i'r drefn Diogelwch Ar-lein.

## Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau

- Ein gweledigaeth yw bod y DU yn wlad lle mae pobl yn meddu ar y sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sydd eu hangen arnynt, a lle mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr yn chwarae eu rhan i sicrhau bod pobl yn gallu llywio drwy'r cynnwys, a ffynnu'n ddiogel ar-lein. Mae ein dyletswyddau o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fwyaf perthnasol i'n blaenoriaethau o 'Gyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi' a 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein', ond rydym yn gwybod eu bod yn cyffwrdd â'n holl sectorau.
- Mae ein strategaeth tair blynedd gyntaf ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gwneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb. Rydym wedi datblygu ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gan flaenoriaethu tair elfen ganolog:
- **Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso:** Mae hyn yn adeiladu ar ein treftadaeth ymchwil a chasglu tystiolaeth am realiti dyddiol oedolion a phlant, yn ogystal â'n hadnoddau gwerthuso a groesawyd.
- **Ymgysylltu â Llwyfannau:** Llwyfannau a gwasanaethau ar-lein, ochr yn ochr â darlledwyr, yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyfathrebiadau a defnyddio'r cyfryngau. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran hybu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer eu cynulleidfaoedd.
- **Pobl a Phartneriaethau:** Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ymwneud â phobl, a'r ffordd orau o sicrhau effaith yw drwy bartneriaid lleol dibynadwy sy'n arbenigo mewn cyflawni.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod sbectrwm yn parhau i fod yn alluogwr effeithiol ar gyfer cyfathrebu di-wifr i bob person, busnes a sector. Rydym yn ceisio sicrhau bod sbectrwm yn parhau i gefnogi'r galw cynyddol am amrywiaeth o wasanaethau, yn galluogi arloesi ac, yn bwysicach, yn helpu twf economaidd.

2.28 Mae sbectrwm radio yn hanfodol i gyflawni amrywiaeth eang o dechnolegau a gwasanaethau di-wifr rydym yn eu defnyddio yn ein bywydau bob dydd, ac sy'n cynorthwyo busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau symudol, Wi-Fi, Bluetooth, radio wedi'i ddarlledu, teledu a llywio â lloeren. Ar ben hynny, mae'r sbectrwm yn parhau yn hanfodol i gefnogi'r gwasanaethau brys, monitro'r hinsawdd, rheoli traffig awyr a radar, a'n lluoedd arfog.

2.29 Gyda'r galw am sbectrwm radio gan ddefnyddwyr presennol a newydd yn parhau i gynyddu, ein nod yw sicrhau bod yr adnodd hanfodol hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon er budd pawb yn y DU. Yn benodol, byddwn yn cefnogi twf economaidd drwy hwyluso arloesedd mewn gwasanaethau symudol, lloeren a (Wi-Fi) didrwydded. Byddwn yn gwneud hyn drwy alluogi mynediad amserol gyda dulliau awdurdodi hyblyg ac annog mwy o rannu rhwng gwahanol raglenni a defnyddiau.



2.30 Wrth ymgymryd â'n gwaith i 'Alluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Sicrhau mynediad rhanddeiliaid at sbectrwm a lliniaru ymyriant niweidiol drwy drwyddedu, cynllunio, monitro a chydymffurfio sy'n galluogi gwasanaethau di-wifr.
- Canfod a darparu sbectrwm i ddiwallu anghenion newidiol sectorau, gan gynnwys band eang symudol a gwasanaethau gofod.
- Esblygu ein fframweithiau rheoli sbectrwm i gefnogi defnydd mwy effeithlon, gwella cyflymder a hyblygrwydd mynediad a gwella argaeledd sbectrwm.
- Arwain a dylanwadu ar drafodaethau rhyngwladol ar fynediad sbectrwm ar yr un pryd â chynrychioli buddiannau'r DU yn effeithiol.

2.31 Mae ein gwaith i gefnogi'r canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol:

- **Ymgysylltu rhyngwladol ar reoli sbectrwm:** Rydym yn cynrychioli buddiannau'r DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) ac mewn gwaith sbectrwm Ewropeaidd i fynd ar drywydd canlyniadau rhyngwladol sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU. Drwy hyn, ein nod yw sicrhau bod dinasyddion a defnyddwyr yn gallu elwa o arloesi technolegol rhyngwladol ac ecosystemau cyfarpar wedi'u cysoni. Ein blaenoriaethau yw annog mwy o rannu rhwng gwahanol ddefnyddwyr a thechnolegau di-wifr; sicrhau sbectrwm digonol a digon o amddiffyniad i wasanaethau gwyddor y gofod; a gwella'r fframwaith rheoleiddio lloeren sy'n cefnogi arloesedd a thwf y sector.
- **Cefnogi arloesedd drwy sicrhau bod sbectrwm ar gael yn amserol a mwy o rannu:** Rydym am alluogi mynediad amserol at sbectrwm i gefnogi cystadleuaeth, arloesedd a thwf ar draws gwahanol sectorau. Rydym yn paratoi i ddyfarnu'r sbectrwm mmWave (26 a 40 GHz), gan ddylunio rheolau ar gyfer dyfarnu sbectrwm 1.4 GHz a chadarnhau ein dull o sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael yn y band 6 GHz ar gyfer gwasanaethau ychwanegol. Byddwn yn ymgynghori ar sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael i gefnogi mwy o gapasiti ar gyfer gwasanaethau lloeren drwy fynediad at fand Q/V ac E ar gyfer pyrth lloeren a mynediad ychwanegol at fand Ku a Ka ar gyfer terfynellau lloeren ar longau ac awyrennau. Gan weithio gyda Llywodraeth y DU, ein nod yw sicrhau bod sbectrwm ar gael ar gyfer seilwaith cenedlaethol hanfodol, gan gynnwys ar gyfer y sector rheilffyrdd, gwasanaethau brys a chyfleustodau.
- **Effeithlonrwydd parhaus drwy alluogrwydd rheoli sbectrwm uwch:** Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i foderneiddio a gwella ein llwyfan trwyddedu i ddarparu mwy o awtomeiddio, gwella profiad defnyddwyr a chynyddu effeithlonrwydd sbectrwm.

2.32 Mae'r meysydd gweithgarwch hyn sydd â ffocws penodol yn cael eu hategu gan raglenni gwaith parhaus i gyflawni ein canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Ymchwil a chynllunio:** Rydym yn cynnal mesuriadau ymledu radio ac offer radio i lywio ein gwaith datblygu polisi i wella effeithlonrwydd sbectrwm. Rydym yn parhau

i ymgysylltu â defnyddwyr sbectrwm, cydweithwyr rhyngwladol, diwydiant, Llywodraeth y DU a'r byd academaidd i ddeall newidiadau technolegol a newidiadau yn y farchnad a allai effeithio ar ofynion sbectrwm gwahanol ddefnyddwyr a sectorau. Er enghraifft, rydym yn edrych ar ddulliau rhannu arloesol fel rhan o'n blwch tywod sbectrwm ac yn ystyried goblygiadau sbectrwm sy'n deillio o unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ar deledu daearol digidol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i alluogi mwy o rannu mewn sbectrwm amddiffyn.

- **Esblygu ein fframwaith rheoli sbectrwm:** Rydym yn adolygu ein fframwaith trwyddedu lloeren ar gyfer systemau lloeren nad ydynt yn ddaearsefydlog (NGSO) a'n polisi ffioedd trwyddedau porth lloeren, a byddwn yn ymgynghori ar ddiweddaru ein gweithdrefnau ffeilio lloerennau. Rydym yn ymgynghori ar gyflwyno fframwaith rheoleiddio i alluogi gwasanaethau lloeren yn uniongyrchol i ffonau symudol, lle mae cytundeb â'r rheini sy'n dal trwyddedau sbectrwm symudol perthnasol; ac ystyried awdurdodi trwyddedau sbectrwm 2 GHz Gwasanaethau Lloeren Symudol yn y dyfodol a fydd yn dod i ben yn 2027. Rydym yn bwriadu diweddaru rhai o'n trwyddedau morol i'w symleiddio ac i fod yn gydnaws â newidiadau i'r fframwaith rhyngwladol. Rydym hefyd yn adolygu ffioedd trwyddedau sbectrwm symudol i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Rydym yn parhau i symleiddio ein cynnyrch/prosesau trwydded lle bo hynny'n briodol er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithredol.

- **Trwyddedu, cydymffurfio a sicrwydd:** Rydym yn rheoli tua 400,000 o drwyddedau sbectrwm byw sy'n cynnwys cynllunio amleddau ar gyfer trwyddedeion fel digwyddiadau arbennig, cysylltiadau sefydlog microdonfedd, mynediad a rennir, radio busnes, systemau lloeren nad ydynt yn ddaearsefydlog, darlledu radio a theledu; a darparu cyngor a chymorth i'r defnyddwyr sbectrwm hyn. Rydym yn ymchwilio i ymyriant niweidiol a defnydd anghyfreithlon/heb awdurdod o sbectrwm ac yn lleihau'r risg yma drwy gyfyngu ar argaeledd offer nad yw'n cydymffurfio.

# 3. Gwledydd

3.1 Mae angen i wasanaethau cyfathrebiadau weithio i bob person a busnes, ac er mwyn sicrhau hyn, rydym yn gweithio i ddeall y gwahanol anghenion ledled y DU. Mae heriau unigryw, ond hefyd cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae hyn yn seiliedig ar ymchwil sy’n cynrychioli holl wledydd a rhanbarthau’r DU. Dau o’r meysydd gwaith â blaenoriaeth ar gyfer timau gwledydd Ofcom yw sicrhau mynediad at wasanaethau telegyfathrebiadau o ansawdd da mewn ardaloedd gwledig, a sicrhau bod cynnwys ar gael sy’n adlewyrchu profiadau amrywiol pobl mewn gwahanol wledydd.

3.2 Mae ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol statudol yn ein helpu i ddeall a rhoi sylw i ddiddordebau a phryderon penodol yr holl randdeiliaid sy’n byw ac yn gweithio ym mhob un o’r pedair gwlad, ac integreiddio hyn yn ein gwaith polisi. Ar ben hynny, mae ein timau yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain a Manceinion yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth eang o anghenion y DU, ond hefyd o amgylchiadau penodol defnyddwyr a rhanddeiliaid ym mhob gwlad. Mae gennym hefyd beirianwyr maes wedi’u lleoli ledled y DU i gefnogi ein gwaith sbectrwm, gan gynnwys yn Baldock a Birmingham.

3.3 Mae’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mhob gwlad yn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau rhanddeiliaid, defnyddwyr a chynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli ar lefel y Bwrdd yn Ofcom, drwy gynnwys cyfarwyddwyr anweithredol sy’n cynrychioli buddiannau pob un o’r pedair gwlad. Byddwn yn parhau i ymgysylltu’n adeiladol â llofnodwyr pob Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys y llywodraethau a’r seneddau perthnasol, wrth gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26.

3.4 Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd y DU hefyd yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau yn cynrychioli pob un o’r gwledydd. Mae gofyniad statudol hefyd i bob un o wledydd y DU fod â'i chynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy’n tynnu sylw at anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel.

3.5 Rydym yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i’r bobl ym mhob gwlad yn ein barn ni, ond bydd y gwaith a nodir yn ein blaenoriaethau uchod yn effeithio ar y DU gyfan. Bydd tîm pob gwlad yn gweithio i sicrhau bod anghenion unigryw pob gwlad yn cael eu cynrychioli wrth i’n prosiectau gael eu rhoi ar waith. Isod, gallwch weld disgrifiad o’r prif feysydd gwaith a blaenoriaethau ar gyfer pob un o’n gwledydd.

## Yr Alban

3.6 Yn ôl llawer o fetrigau, yr Alban yw’r lleiaf cysylltiedig o bedair gwlad y DU o hyd. Bydd angen amrywiaeth o ddulliau a thechnolegau i lenwi’r bylchau cysylltedd sy’n weddill, wedi’u hategu gan waith rheoleiddio ac ymgysylltu Ofcom yn yr Alban.

3.7 Eleni, mae ein Hadolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau yn rhan hanfodol o’n gwaith i barhau i gefnogi cyflwyno band eang. Nod hyn yw darparu fframwaith rheoleiddio sefydlog sy’n cefnogi buddsoddiad masnachol mewn cysylltedd sefydlog sy’n gallu delio â gigabits a

ffeibr llawn ym mhob cwr o'r Alban. Mae amrywiaeth o waith ymgysylltu eisoes yn mynd rhagddo yn yr Alban a byddwn yn parhau â hyn fel rhan o'r ymgynghoriad ar ein cynlluniau. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu mewnbwn a data, lle bo hynny'n briodol, i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni presennol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban – sefydlog a symudol – gan gynnwys Project Gigabit, Reaching 100 a'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir.

3.8 Yn fwy cyffredinol, byddwn yn cynghori ar rôl technolegau eraill o ran datrys heriau cysylltedd mewn ardaloedd anghysbell, fel cysylltedd Uniongyrchol i Ddyfais a lloeren mewn orbit heb fod yn ddaearsefydlog (NGSO). Gyda sector gofod a lloeren cynyddol yn yr Alban, bydd ein strategaeth sbectrwm gofod hefyd yn cefnogi ac yn galluogi arloesedd technegol.

3.9 Byddwn yn cydnabod buddiannau cymunedau gwledig ac ynysoedd yr Alban o ran cysylltedd fforddiadwy a chadarn, gan gynnwys monitro sut mae cyflwyno technolegau newydd yn yr Alban yn ategu'r broses o dynnu hen dechnolegau yn ôl, fel symud i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd a diffodd gwasanaethau 3G a 2G.

3.10 Yn ein gwaith post, byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr, grwpiau busnes a rhanddeiliaid eraill ledled yr Alban wrth i ni ystyried diwygio i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol.

3.11 Wrth i ni edrych ar sut gellir cynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus drwy'r adolygiad PSM, byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban, diwydiant, y byd academaidd a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'r broses. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod hyn yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban ac yn ystyried yr ecosystem ddarlledu benodol yn yr Alban gyda deiliad trwydded Channel 3 gwahanol (o weddill y DU) ar ffurf STV, a rôl MG ALBA o ran darparu cynnwys Gaeleg mewn partneriaeth â'r BBC.

3.12 Wrth gefnogi defnyddwyr i fyw bywyd mwy diogel ar-lein, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei rhoi ar waith yn ddidrafferth mewn cyd-destun datganoledig. Yn benodol, byddwn yn cydweithredu â Llywodraeth yr Alban ar ei nod o ddileu trais yn erbyn menywod a merched. Bydd cysylltiadau gwaith cryf yma hefyd yn helpu ein gwaith ein hunain i ddarparu canllawiau ar fywyd mwy diogel i fenywod a merched ar-lein a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i feithrin perthynas â rhanddeiliaid yn yr Alban i sicrhau bod perthnasedd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn yr Alban yn hysbys ac yn ddealladwy.

3.13 Byddwn yn cryfhau ein partneriaethau â sefydliadau trydydd sector ledled yr Alban sy'n gweithredu ar lefel leol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn yr Alban i annog datblygu mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â'n hadolygiad o'r cyfryngau lleol a'n rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.

## Cymru

3.14 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru, gan sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig a swyddogion yn cael eu hysbysu a'u cefnogi ar faterion ar draws cylch gwaith Ofcom, wedi'u harwain gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Llywodraeth Cymru, y Senedd a Llywodraeth y DU. Byddwn yn darparu cyngor i helpu i lywio

trafodaethau a phenderfyniadau polisi i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr Cymru. Ar ben hynny, byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ar draws sectorau drwy wahanol rwydweithiau, fforymau ac yn benodol, drwy bartneriaeth y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

3.15 Byddwn yn parhau i fod yn gyfaill i'r Gymraeg, gan ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith i sicrhau bod eu materion penodol yn cael eu clywed a'u deall a bod y Gymraeg, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei hystyried ym mhroses llunio polisïau Ofcom. Rydym yn ymdrechu i gyflawni ein dyletswyddau presennol i lefel uchel a byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau a'n safonau i sicrhau canlyniadau llwyddiannus.

3.16 Wrth i Ofcom gael pwerau ffurfiol i reoleiddio darparwyr gwasanaethau ar-lein ar gyfer diogelwch ar-lein, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, cymdeithas ddinesig, a grwpiau eiriolaeth defnyddwyr yng Nghymru i feithrin dealltwriaeth o'r drefn newydd a chefnogi ymdrechion i helpu pobl i fyw bywyd mwy diogel ar-lein. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi darparu mwy o eglurder a phenodoldeb i'n dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau[4]. Felly, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yng Nghymru i helpu defnyddwyr i lywio drwy gynnwys yn ddiogel a ffynnu ar-lein.

3.17 Byddwn yn cefnogi gwell cysylltedd, yn enwedig yn yr ardaloedd anoddach eu cyrraedd yng Nghymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid telegyfathrebiadau a grwpiau eiriolaeth defnyddwyr, mewn perthynas â'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau ac ar faterion fel cyflwyno ffeibr llawn, band eang lloeren, gwell darpariaeth symudol a chadernid rhwydweithiau cyfathrebiadau, i sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu clywed a'u deall.

3.18 Byddwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf Cyfryngau gan sicrhau bod safbwyntiau'r sectorau darlledu, creadigol a chysylltiedig eraill yng Nghymru yn cael eu diweddaru, a'u bod yn rhan o'r prosesau ymgynghori. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r sectorau hyn yng Nghymru fel rhan o'n hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn tynnu sylw at y Gymraeg a'i diwylliant.

## Gogledd Iwerddon

3.19 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth ar bob lefel yng Ngogledd Iwerddon, gan sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig a swyddogion yn cael eu hysbysu a'u cefnogi ar faterion ar draws cylch gwaith Ofcom, wedi'u harwain gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Cynulliad a Llywodraeth y DU. Byddwn yn darparu cyngor i helpu i lywio penderfyniadau polisi, gan arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion a defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Ar ben hynny, byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ar draws sectorau drwy wahanol rwydweithiau, fforymau ac yn benodol, drwy bartneriaeth y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

[4] Fel y nodwyd yn wreiddiol yn Neddf Cyfathrebiadau 2003.

3.20 Byddwn yn cefnogi gwell cysylltedd yng Ngogledd Iwerddon drwy ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion y Llywodraeth ar faterion fel cyflwyno ffeibr llawn, darpariaeth symudol a chadernid rhwydweithiau cyfathrebiadau; a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid telegyfathrebiadau lleol a grwpiau eiriolaeth defnyddwyr i sicrhau bod materion sy'n benodol i Ogledd Iwerddon yn cael eu clywed a'u deall – yn enwedig drwy'r broses Adolygu Mynediad Telegyfathrebiadau a mudo PSTN a 2G/3G.

3.21 Gyda phwerau newydd Ofcom i reoleiddio darparwyr gwasanaethau ar-lein ar gyfer diogelwch ar-lein, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth ddatganoledig a'r gymdeithas ddinesig yng Ngogledd Iwerddon, i hyrwyddo dealltwriaeth o'r drefn newydd a chefnogi ymdrechion i helpu pobl i fyw bywyd mwy diogel ar-lein. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau lleol i ddylunio a gweithredu cynllun cyflawni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer Gogledd Iwerddon, i helpu defnyddwyr i lywio drwy gynnwys yn ddiogel a ffynnu ar-lein.

3.22 Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yng Ngogledd Iwerddon fel rhan o'n hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y sector darlledu, y sector creadigol a sectorau cysylltiedig eraill. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

3.23 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid rheoleiddio yng Ngweriniaeth Iwerddon – ComReg a Coimisiún na Meán – ac yn cynnig cyngor i Lywodraeth y DU a chyrff defnyddwyr y DU i sicrhau bod pobl a busnesau Gogledd Iwerddon yn parhau i elwa o berthynas drawsffiniol dda.

3.24 Fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn ein sefydliad ac yn y sectorau ehangach rydym yn eu rheoleiddio, a sicrhau y cydymffurfir ag adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, byddwn yn cyhoeddi sut rydym yn bwriadu parhau i gyflawni ein dyletswyddau o dan adran 75 mewn Cynllun Cydraddoldeb pum mlynedd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

## Lloegr

3.25 Byddwn yn parhau i sicrhau bod anghenion cyfathrebu amrywiol pobl ledled Lloegr yn cael eu diwallu. Mae Pwyllgor Cynghori statudol Lloegr yn parhau i gefnogi penderfyniadau polisi Ofcom drwy nodi materion sy'n effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau ym mhob rhan o'r wlad.

3.26 Mae ein hymrwymiad i gefnogi ecosystem cyfryngau amrywiol Lloegr, drwy sicrhau bod y cyfryngau'n gynhwysol ac yn adlewyrchu pob cynulleidfa, yn dal i fod yn rhan hanfodol o'n gwaith. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfryngau lleol a byddwn yn darparu'r gofynion gwybodaeth a newyddion lleol newydd ar gyfer gorsafoedd radio analog.

3.27 Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r llywodraeth, ASau lleol ac awdurdodau lleol i helpu i gyflwyno ffeibr llawn ac i sicrhau mwy o ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig. Yn ein hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd, rydym yn tynnu sylw at gynlluniau gweithredwyr i gyflwyno rhwydweithiau ffeibr i sicrhau gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Pan fydd yr holl gynlluniau'n cael eu hystyried, disgwylir y bydd gan 99% o eiddo trefol a 91% o eiddo gwledig fand eang sy'n gallu delio â gigabits erbyn mis Mai 2027.

# 4. Sut rydym yn cyflawni

4.1 Mae cydweithio y tu mewn a'r tu allan i Ofcom yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiadau. Amlinellir isod ein hagwedd at bartneriaethau, ein gwaith sylfaenol a sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau drwy fuddsoddi yn ein gallu sefydliadol.

## Partneriaethau

4.2 Er mwyn bod yn rheoleiddiwr unedig effeithiol a chyflawni ar gyfer defnyddwyr a'n sectorau, rydym yn dibynnu fwyfwy ar amrywiaeth o bartneriaethau pwysig, yn ddomestig ac yn rhyngwladol.

### Partneriaethau domestig

- **Parhau i weithio gyda rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer materion a gwasanaethau digidol. Mae aelodau'r Fforwm yn gweithio gyda'i gilydd ar sganio'r gorwel ac yn deall cyfleoedd a risgiau Deallusrwydd Artiffisial. Rydym hefyd yn gweithio'n arbennig o agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau ein bod yn cyd-fynd â chyfraith diogelu data wrth i ni roi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith. Bydd y Fforwm yn cyhoeddi ei gynllun gwaith ar gyfer 2025/26 ym mis Ebrill 2025.

- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU.** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill y DU i fynd i'r afael â heriau ar draws gwahanol sectorau, i rannu arferion gorau ac i sbarduno newid cadarnhaol fel aelod o'r Rhwydwaith. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i lywio a chyfrannu at ddadleuon polisi, adolygiadau rheoleiddio a materion traws-sector. Yn arbennig, byddwn yn parhau i gyfrannu at waith ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.

- **Ymgysylltu â'r gymuned academaidd i helpu i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth.** Rydym yn canolbwyntio ar feithrin perthynas ag ymchwilwyr academaidd i sicrhau bod gwaith Ofcom yn cael ei lywio gan yr wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil academaidd, grwpiau arbenigol a sefydliadau cymdeithas sifil. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ein gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein, lle byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i sicrhau bod gennym yr wybodaeth sydd arnom ei hangen i ddeall profiadau defnyddwyr ar-lein ac effaith mesurau diogelwch llwyfannau.

- **Parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddiwr, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu.** Byddwn yn parhau â'n trefniadau cyd-reoleiddio ar gyfer teledu, radio, gwasanaethau rhaglenni ar-alw a llwyfannau rhannu fideos.

- **Panel Cynghori a Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau 667 o aelodau sy'n cynrychioli

amrywiaeth o sefydliadau'r DU ac yn rhyngwladol, gan gydweithio i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU. Mae ein Panel Cynghori yn llywio gwaith Ofcom i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y DU.

- **Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hawdurdodau technegol, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r Awdurdod Cenedlaethol Diogelwch Amddiffynnol.
- **Gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth.** Byddwn yn parhau ein perthynas waith â chyrff gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth o ran ein cyfrifoldebau diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebiadau a'n cyfrifoldebau sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, yr Heddlu Metropolitanaidd, Heddlu Dinas Llundain, Heddlu'r Alban a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).
- **Cynaliadwyedd a newid hinsawdd.** Mae gennym ddiddordeb yng nghynaliadwyedd hirdymor ein sectorau, ond ar hyn o bryd nid yw ein dyletswyddau'n cynnwys cyflawni unrhyw amcanion amgylcheddol penodol (yn cynnwys ar gyfer newid hinsawdd). Fodd bynnag, rydym yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant telegyfathrebiadau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r pwnc ac i gefnogi a chyfrannu at hyrwyddo amcanion sero net.

## Partneriaethau rhyngwladol

4.3 Mae ein gwaith rhyngwladol yn parhau i esblygu wrth i'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio weithredu'n fyd-eang, yn ogystal â'r llwyfannau maen nhw'n eu defnyddio i gyrraedd defnyddwyr. Mae ein gwaith rhyngwladol yn cynnwys cynrychioli Ofcom a'r DU yn rhanbarthol ac yn fyd-eang a defnyddio ein hymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi ar lefel ryngwladol, gan ddod â gwybodaeth yn ôl i fod yn sail i'n gwaith yn ddomestig.

4.4 Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygiadau rhyngwladol ym meysydd diogelwch ar-lein, darlledu, telegyfathrebiadau, marchnadoedd digidol, diogelwch a chadernid, a safonau technegol rhyngwladol. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cynnwys:

- O ran **diogelwch ar-lein**, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol, gan gyfnewid arferion gorau a phrofiad. Yn benodol, byddwn yn parhau i feithrin cydweithio ac yn eirioli dros normau cyffredin mewn diogelwch ar-lein, fel un o sylfaenwyr a Chadeirydd presennol y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN). Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn yr UE ar weithredu rheolau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau ar-lein eraill drwy'r Gweithgor Rhyngwladol ar Ddilysu Oedran.
- Ym **maes darlledu a'r cyfryngau**, byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y dadleuon byd-eang ar ymatebion rheoleiddio i gynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau fel Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio, Tasglu Ewropeaidd ar Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth a Chynghrair Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth UNESCO, i ddatblygu a chyfnewid arferion gorau ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fyd-

eang. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda sefydliadau fel Cyngor Ewrop i gydweithio â rheoleiddwyr darlledu a chyfryngau rhyngwladol eraill ar yr heriau cyffredin sy'n ein hwynebu.

- O ran **telegyfathrebiadau**, byddwn yn parhau i fonitro a dadansoddi technolegau sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau rheoleiddio a deinameg y farchnad yn y sectorau cyfathrebiadau mewn awdurdodaethau allweddol, i'n helpu i nodi heriau, risgiau a chyfleoedd a allai effeithio ar sector telegyfathrebiadau'r DU. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chymheiriaid rhyngwladol ar sail ddwyochrog ac amlochrog, a'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol yw ein prif fforwm amlochrog yn Ewrop o hyd. Byddwn hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau rhyngwladol ad hoc eraill ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys y Rhwydwaith Gorfodi Cyfathrebiadau Digymell a'r Fforwm Gwrth-dwyll Rheoleiddiol Anffurfiol Byd-eang.
- Mewn perthynas â **marchnadoedd cyfathrebiadau ar y rhyngrwyd**, byddwn yn monitro ac yn deall sut mae cystadleuaeth yn datblygu mewn awdurdodaethau eraill a allai ddylanwadu neu effeithio ar ein dyletswyddau a'n sectorau. Er enghraifft, rydym yn nodi ymddangosiad graddol rheoleiddio ex ante ar lwyfannau ar-lein yn fyd-eang, yn enwedig yn yr UE gyda'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol. Gallai profiadau cyfundrefnau eraill o'r fath ddylanwadu ar ddyluniad ymyriadau o blaid cystadleuaeth yn y DU wrth i wahanol awdurdodaethau geisio rheoleiddio'r un set o lwyfannau digidol mawr yn unigol ac ar y cyd, ar gyfer yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg.
- Ym meysydd **diogelwch, cadernid rhwydwaith a safonau technegol**, mae gennym raglen barhaus o ymgysylltu dwyochrog â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill ledled y byd i rannu arbenigedd a diweddariadau ar ddatblygiadau yn ein gwledydd ein hunain. Mae Ofcom hefyd yn gweithio drwy'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, lle rydym yn aelod etholedig o'i gyngor llywodraethu ac rydym yn cynrychioli'r DU yn y tri sector (telegyfathrebiadau, radiogyfathrebu a datblygu). Rydym hefyd yn gwasanaethu fel cadeirydd y prif bwyllgor sbectrwm a chadeirydd y pwyllgor paratoadol yng ngrŵp rhanbarth Ewrop. Rydym yn dilyn trafodaethau'n agos ar safonau technegol sy'n effeithio ar ein sectorau mewn sefydliadau safoni sy'n cael eu harwain gan y diwydiant, fel Tasglu Peirianneg Rhyngrwyd, Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop a Phrosiect Partneriaeth Trydedd Genhedlaeth.

## Datblygu sgiliau a galluogrwydd

4.5 Wrth i'n sectorau esblygu ac wrth i'n cylch gwaith ehangu, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fuddsoddi yn ein hased mwyaf gwerthfawr, ein pobl. Mae angen i ni addasu i gefnogi darpariaeth effeithiol ar draws pob maes o'n busnes. Rydym yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- **Datblygu ein swyddogaeth data a digidol:** Rydym yn parhau i ddatblygu ein gallu i fanteisio i'r eithaf ar ddata a thechnolegau sy'n seiliedig ar ddata ar draws ein sefydliad cyfan. Byddwn yn parhau i ddefnyddio technolegau sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol lle mae angen a budd busnes clir, gan ddatblygu ein hatebion mewnol ein hunain ochr yn ochr â phrynu cynhyrchion parod

lle bo hynny'n briodol. Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar wella'r ffordd rydym yn rheoli mwy a mwy o ddata cymhleth i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn hygyrch, o ansawdd uchel ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. I'n cydweithwyr, byddwn yn parhau i ddatblygu hyfforddiant i sicrhau'r cymysgedd cywir o sgiliau.

- **Cryfhau ein galluogrwydd technolegol:** Bydd technoleg bob amser yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio'r galw, gan sbarduno tueddiadau defnyddwyr sy'n dod i'r amlwg a darparu gwasanaethau uwch i fusnesau ac i ddefnyddwyr fel ei gilydd. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar dechnolegau sy'n: galluogi darparu gwasanaethau newydd sy'n ddiogel i'w defnyddio ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bobl a busnesau; gwella darpariaeth, perfformiad a chapasiti rhwydweithiau; lleihau'r rhwystrau i fynediad, rhoi mwy o ddewis i bobl; a sicrhau diogelwch a chadernid wrth ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein galluogrwydd technegol drwy adeiladu ein gweithlu o arbenigwyr ar draws meysydd technolegol allweddol fel: Deallusrwydd artiffisial, realiti estynedig, gemau a thechnoleg diogelwch. Cefnogir ein harbenigedd gan ein hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, ein cyfranogiad mewn fforymau proffesiynol, ein rhyngweithio â chymunedau safonau a'n gwaith gyda phartneriaid Llywodraeth y DU.
- **Meithrin dealltwriaeth fasnachol a sganio'r gorwel:** Rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio a sut mae ein rhanddeiliaid a'n marchnadoedd yn esblygu. Rydym yn cyflawni hyn drwy recriwtio o amrywiaeth o gefndiroedd a meithrin sgiliau a gwybodaeth ymysg ein cydweithwyr. Mae ein rhaglen sganio'r gorwel yn fewnbwn allweddol arall i ddatblygu ein dealltwriaeth o'n sectorau wrth i ni geisio rhagweld datblygiadau a thueddiadau yn y dyfodol drwy ymgysylltu, ymchwil a dadansoddi allanol.
- **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad:** Mae ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad pum mlynedd yn dod i ben yn 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran cynrychiolaeth ar draws Ofcom. Rydym nawr yn gweithio tuag at darged newydd o 19% ar gyfer cynrychiolaeth uwch o gydweithwyr o leiafrifoedd ethnig, a tharged newydd o 15% ar gyfer cynrychiolaeth ar draws y sefydliad ar gyfer anabledd. Byddwn yn parhau i wreiddio ein prosesau recriwtio cynhwysol newydd ac yn canolbwyntio ar wella profiadau cydweithwyr o gefndiroedd Du ac anabl. Rydym yn arbennig o falch o gael gwobr Cyflogwr y Flwyddyn y Sector Cyhoeddus yng Ngwobrau InsideOut ym mis Mehefin 2024, sy'n dathlu llwyddiannau yn y maes iechyd meddwl. Mae gennym raglen helaeth o weithgareddau i hyrwyddo lles meddyliol, corfforol, ariannol a chymdeithasol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i bennu ein strategaeth y tu hwnt i 2026.
- **Strategaeth leoli a gweithio cysylltiedig:** Mae 27% o'n cydweithwyr wedi'u lleoli y tu allan i Lundain ac rydym yn disgwyl cyrraedd ein targed o 30% erbyn mis Mawrth 2026. Mae gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'n Cynllunio Gweithlu Strategol i bennu nodau ar gyfer y dyfodol.

## Bod yn sail i waith ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

4.6 Mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn cael y dystiolaeth, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnom mewn amrywiaeth o ffyrdd ar draws ein sectorau, gan gynnwys:

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth:** Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfathrebiadau a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr er mwyn darparu dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o bobl a busnesau. Rydym yn archwilio dulliau ymchwil arloesol gan gynnwys gwyddor ymddygiad, lle rydym wedi sefydlu Canolfan Deall Ymddygiad i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cyfuno ein gwaith ymchwil am ddefnyddwyr â data, sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y diwydiant a thrydydd partïon. Yn ogystal â llywio ein gwaith, mae ein hymchwil, a'n hymrwymiad i sicrhau bod y canfyddiadau ar gael yn gyhoeddus, yn cyflawni rhai o'n dyletswyddau statudol.
- **Peirianneg data a dadansoddi:** Mae gennym dimau sy'n cefnogi ein gwaith polisi a gweithredol drwy ddefnyddio data a dadansoddeg uwch. Rydym yn datblygu cynnyrch ac offer data i gynhyrchu gwybodaeth a helpu i wneud penderfyniadau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithredu fframwaith rheoli a llywodraethu data a gwybodaeth cynhwysfawr fel sylfaen ar gyfer ein defnydd o ddata o'r dechrau i'r diwedd.
- **Cipolwg ar dechnoleg:** Mae gan ein swyddogaethau technoleg bwrpas deuol o gynghori ein timau polisi, goruchwylio a gorfodi i gyflawni eu blaenoriaethau presennol a gwneud gwaith blaengar i baratoi ar gyfer heriau yn y dyfodol. Rydym yn dyfnhau ein dealltwriaeth o sut mae technoleg yn sbarduno newid yn ein sectorau a'r effaith bosibl ar sut rydym yn gweithio, gan gynnwys ymgysylltu'n weithredol â'r byd academaidd i fanteisio ar arbenigedd ac ymchwil. Rydym hefyd yn cynnal profion manwl ac yn gwerthuso dulliau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg o ran diogelwch ar-lein yn ein Labordy Technoleg Diogelwch Ar-lein. Mae'r labordy hwn yn caniatáu ar gyfer archwilio atebion technegol penodol, fel y rheini mewn sicrhau oedran a chymedroli cynnwys awtomataidd.
- **Deallusrwydd Artiffisial:** Mae ein gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial yn cael ei lywio gan ei ddefnydd ar draws ein holl sectorau a sut gall effeithio ar y canlyniadau rheoleiddio rydym yn ceisio eu cyflawni ar draws ein cylch gwaith. Er enghraifft, byddwn yn edrych ymhellach ar rinweddau dulliau lliniaru ffugiad dwfn, fel dyfrnodau, cynlluniau metadata a labelu cynnwys. Byddwn yn parhau i ystyried effaith deallusrwydd artiffisial ar y sector cyfryngau, yn enwedig ar ddarparu newyddion cywir a dibynadwy fel rhan o'r adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â chyrff safonau, yn enwedig Sefydliad Safonau Telegyfathrebiadau Ewrop gan y bydd deallusrwydd artiffisial hefyd yn effeithio ar y sector telegyfathrebiadau, gan gynnwys ar gyfer diogelwch a chadernid. Mae'n bwysig ein bod yn deall cyfleoedd a risgiau deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol ar draws ein sectorau, a byddwn yn parhau i edrych ar ddatblygiadau drwy ein gweithgareddau sganio'r gorwel. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda

phartneriaid ein Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ar ein diddordebau cyffredin mewn deallusrwydd artiffisial, ac ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth iddi fwrw ymlaen â'i hagenda deallusrwydd artiffisial. Yn rhyngwladol, bydd Ofcom yn parhau i fonitro dadleuon polisi deallusrwydd artiffisial, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y byd i ddeall defnydd ac effeithiau'r dechnoleg, a dilyn trafodaethau ar safonau deallusrwydd artiffisial mewn sefydliadau fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, lle mae Ofcom yn cynrychioli'r DU. Rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad ar sut rydym yn rheoleiddio deallusrwydd artiffisial lle mae'n cael ei ddefnyddio yn ein sectorau yn nes ymlaen eleni.

4.7 Rydym hefyd yn awyddus i ddeall effaith ein gwaith ar ddefnyddwyr ac ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- **Asesiadau effaith:** Rydym yn defnyddio asesiadau effaith yn unol â'n canllawiau diwygiedig i sicrhau bod ein dull o lunio polisïau ar sail tystiolaeth yn glynu wrth yr arferion gorau. Rydym yn ystyried effeithiau ein hymyriadau ar amrywiaeth eang o ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb. Ar ben hynny, rydym yn asesu'r effaith bosibl ar y Gymraeg. Rydym yn monitro ac, mewn achosion penodol fel hysbysiadau diwedd contract telegyfathrebiadau symudol, yn gwerthuso effaith go iawn ein gwaith ar ôl gweithredu, er mwyn deall sut mae ein hymyriadau wedi siapio canlyniadau defnyddwyr. Mae'r gwerthusiad parhaus hwn yn ein galluogi i fireinio ein polisïau ar sail canlyniadau gwirioneddol, yn hytrach na rhai a ragwelir. Pan fo'n briodol, rydym hefyd yn ystyried effaith ein gwaith rheoleiddio ar dwf economaidd, yn unol â'n Dyletswydd Twf statudol newydd.
- **Papurau Trafod:** Rydym yn annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio cyfathrebiadau drwy ein papurau trafod parhaus. Maent hefyd yn cyfrannu at ein sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n cefnogi ein penderfyniadau.
- **Casglu gwybodaeth:** Mae'r Gofrestrfa Wybodaeth yn cydlynu ein ceisiadau statudol ac anffurfiol arwyddocaol am wybodaeth ac mae'n gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid y mae angen cymorth arnynt yn y maes hwn. Mae Ofcom wedi ymrwymo i wella ein gweithgareddau casglu gwybodaeth yn barhaus ac yn dilyn adborth ar ein polisi casglu gwybodaeth cyffredinol, mae wedi creu fforwm mewnol ar draws yr uwch Grŵp, i ddarparu rhagor o oruchwyliaeth ac atebolrwydd ar gyfer defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth. Fe wnaethom gyhoeddi ein Datganiad polisi cyffredinol ym mis Rhagfyr 2024, sy'n rhoi rhagor o eglurder i randdeiliaid ynghylch sut byddwn yn gweithredu ein pwerau casglu gwybodaeth. Rydym ni hefyd wedi buddsoddi mewn meddalwedd i'w chyflwyno eleni a fydd yn symleiddio'r broses o gasglu gwybodaeth i randdeiliaid drwy ein Porth Cymunedol newydd.

## Sicrhau gwerth am arian

4.8 Mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol, gan chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella effeithlonrwydd. Ers yr Adolygiad o Wariant yn 2015, rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus ehangach. Dros y 10

mlynedd diwethaf, bydd Cap Gwariant Ofcom wedi cynyddu 5% ar sail tebyg am debyg, sy'n gynnydd o 0.5% y flwyddyn, ar gyfartaledd, ac yn is o lawer na chwyddiant.

4.9 Rydym yn blaenoriaethu cynllunio strategol a chyllidebau integredig i ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithiol. Mae buddsoddiadau'n cael eu rheoli'n dynn er mwyn bod mor effeithlon â phosibl, gan ddefnyddio caffael cystadleuol i sicrhau'r pris a'r ansawdd gorau posibl. Ein nod yw symleiddio ac awtomeiddio prosesau, fel parhau i awtomeiddio a digideiddio ein dull trwyddedu, sy'n gwella effeithlonrwydd ein hadnoddau a phrofiad defnyddwyr, a sicrhau ein bod yn defnyddio'r seilwaith presennol ar gyfer dyletswyddau newydd lle bo hynny'n bosibl (ee y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r Ddeddf Cyfryngau). Ar ben hynny, rydym yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o'n hystad ac rydym wedi parhau i gynyddu ein presenoldeb y tu allan i Lundain yn unol â'n strategaeth gweithio cysylltiedig, sydd yn ei dro wedi arwain at ddefnyddio ein hystad yn fwy effeithlon dros y tair blynedd diwethaf.

## Cap gwariant ar gyfer 2025/26

4.10 Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu ein cap gwariant drwy'r Adolygiad o Wariant, sy'n llywio ein gwaith o gynllunio ein cyllideb. Fel rhan o'n setliad ar gyfer 2025/26, mae'r gyllideb wedi cynyddu ar gyfer dyletswyddau newydd (y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, y Ddeddf Cyfryngau ac ymgorffori'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn).

# A1. Beth rydym yn ei wneud

A1.1 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall. Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, darlledu teledu a radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r sbectrwm radio a ddefnyddir gan ddyfeisiau di-wifr, llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y DU a diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

A1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd Brydeinig ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein hadroddiad diweddar i Lywodraeth y DU ar ddyfodol dosbarthu teledu) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein dyletswyddau

A1.3 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf") yn gosod nifer o ddyletswyddau ar Ofcom y mae'n rhaid i ni eu cyflawni wrth weithredu'r swyddogaethau a'r pwerau rheoleiddio a roddwyd i ni. Mae'r Ddeddf yn datgan mai ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein prif ddyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU.

A1.4 Wrth gyflawni ein dyletswyddau mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.[5]

A1.5 Wrth arfer rhai swyddogaethau rheoleiddio, mae'n rhaid i'n dyletswyddau gynnwys ystyried pa mor ddymunol yw hybu twf economaidd.[6] Cyfeirir at y ddyletswydd hon fel y "ddyletswydd twf" ac mae'n cyd-fynd yn benodol â'n dyletswyddau i ystyried pa mor ddymunol yw: hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol; annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; ac annog argaeledd a defnydd gwasanaethau trosglwyddo data cyflymder uchel ledled y DU.

[5] Gweler adran 3(1) o'r Ddeddf.

[6] Mae'r ddyletswydd twf o dan adran 108(1) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn berthnasol i sut mae Ofcom yn gweithredu ei "swyddogaethau rheoleiddio" (fel y'u diffinnir yn adran 111), ond mae hyn yn amodol ar eithriadau penodol.

A1.6 Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau’n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau, a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr atodiad hwn.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.7 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o’r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu ledled y DU, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod digonedd o ddarparwyr gwasanaethau radio a theledu gwahanol ar gael;
- bod pobl yn cael eu diogelu’n ddigonol rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg a tharfu diangen ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;
- sicrhau bod digon o amddiffyniad i ddinasyddion rhag niwed a achosir gan gynnwys ar-lein ar wasanaethau sydd wedi cael eu rheoleiddio, drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau o’r fath yn mynd ati’n briodol i ddefnyddio systemau a phrosesau sydd wedi eu dylunio i leihau’r risg o niwed o’r fath;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddiben Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.8 Ers 2020, Ofcom sy’n gyfrifol am sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y DU yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny rhag y perygl o wylio cynnwys niweidiol.

A1.9 Ar 1 Hydref 2022, dechreuodd y drefn reoleiddio a sefydlwyd gan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn ffurfiol. Mae hyn yn gosod dyletswyddau diogelwch cryfach ar ddarparwyr telegyfathrebiadau, yn rhoi pwerau i’r Ysgrifennydd Gwladol bennu gofynion diogelwch ac yn rhoi cyfrifoldebau ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio.

A1.10 Ym mis Tachwedd 2023, cafodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein gydsyniad Brenhinol a chafodd Ofcom ei benodi’n rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU.

A1.11 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo’r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i’w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo’n briodol, gallwn roi cyngor i’r rhai sy’n cwyno a’u cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod rydym wedi’u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.12 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998;
- astudio marchnadoedd a chyfeirio materion at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o dan Ddeddf Menter 2002; ac
- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o Ddeddf Menter 2002 mewn perthynas ag uno cyfryngau.

A1.13 Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau Deddf Cystadleuaeth 1998 neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Atodiad i'r Prosiect

## Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau.** Bydd yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026 yn adolygu'r prif farchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn y DU ac yn rhoi rheoliadau ar waith a fydd yn berthnasol am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2026. | Datganiad Ch4[7] 2025/26 |
| **Rheoleiddio Telegyfathrebiadau yn Ardal Hull.** Byddwn yn adolygu'r prif farchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog yn Ardal Hull ac yn rhoi rheoliadau ar waith a fydd yn berthnasol am 5 mlynedd o 1 Tachwedd 2026. | Ymgynghoriad Ch4 2025/26 |
| **Adolygiad o'r Marchnadoedd Llais Cyfanwerthol.** Byddwn yn adolygu ein gwaith o reoleiddio terfynu galwadau sy'n cefnogi darparu gwasanaethau ffôn llinell dir a symudol yn y DU, a byddwn yn rhoi rheoliadau ar waith (ar ôl ymgynghori) a fydd yn berthnasol am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2026 ymlaen. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26 Datganiad Ch4 2025/26 |
| **Adolygiad marchnad terfynu SMS A2P cyfanwerthol.** Yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Ionawr 2025, lle gwnaethom gynigion i reoleiddio'r farchnad terfynu SMS A2P cyfanwerthol (o ystyried ein pryderon cystadleuaeth am y negeseuon swmp a anfonir gan fusnesau a chyrff cyhoeddus), byddwn yn cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniadau **terfynol.** | Datganiad Ch2 2025/26 |
| **Buddsoddiad symudol.** Byddwn yn dechrau rhaglen waith i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad yn y marchnadoedd symudol, gan gynnwys drwy rymuso defnyddwyr i ddewis y rhwydwaith a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas i'w hanghenion. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Diogelwch a chadernid.** Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â'r Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau ac yn cyflwyno ein hail adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Ch3. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Diogelwch a chadernid - parhad.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i gynnal ein profion bygythiadau TBEST sy'n seiliedig ar wybodaeth (profion treiddio). O ran cadernid pŵer, byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr symudol, cynrychiolwyr o'r llywodraeth a'r sector ynni, i benderfynu a oes angen mesurau ychwanegol ar gyfer y rhwydwaith mynediad radio symudol. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ac yn paratoi ar gyfer rhagor o gyfrifoldebau rheoleiddio drwy'r Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid. | Parhaus |

[7] Defnyddir chwarteri ariannol drwy'r Cynllun Gwaith

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Darpariaeth symudol.** Byddwn yn parhau i wella'r broses o adrodd ar berfformiad a darpariaeth symudol. Rydym yn bwriadu diweddaru'r adnodd gwirio darpariaeth symudol a byddwn yn dal y gweithredwyr rhwydweithiau symudol i gyfrif am gywirdeb eu hadroddiadau. Bydd dulliau newydd a ffynonellau data hefyd yn cael eu dadansoddi. | Parhaus |
| **Teitlau Byd-eang a Diogelwch Rhwydwaith Symudol.** Yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2024, byddwn yn penderfynu a ddylid gweithredu ein newidiadau arfaethedig i reolau o ran y defnydd o Deitlau Byd-eang i sicrhau bod gweithredwyr gwael yn cael eu hatal rhag defnyddio'r rhwydwaith signalau symudol byd-eang, a monitro gweithrediad unrhyw newidiadau o'r fath. | Datganiad Ch1 2025/26 |
| **Diffodd 2G/3G.** Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr symudol a darparwyr gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar rwydweithiau 2G/3G i gefnogi'r broses o ddiffodd rhwydweithiau. Ein nod yw helpu i leihau unrhyw darfu yn ystod y broses ddiffodd a helpu i ddiogelu cwsmeriaid rhag niwed, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed. | Parhaus |
| **Mynd i'r afael â galwadau a negeseuon testun sgam**. Ar ôl cyhoeddi ein cais am fewnbwn yn ystod haf 2024 ar leihau sgamiau negeseuon symudol ac opsiynau i fynd i'r afael â ffugio symudol, rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion i fynd i'r afael â'r ffynonellau hyn o niwed yn ystod yr haf eleni. | Ymgynghoriad Ch2 2025/26<br>Datganiad Ch4 2025/26 |
| **Mudo i Brotocol Rhyngrwyd (IP) (diffodd PSTN).** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod y materion sy'n codi yn sgil mudo i linellau tir digidol, gan gynnwys y broses o ddiffodd PSTN, yn cael eu nodi ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |
| **Adolygiad o'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR).** Adolygiad strategol o sut mae mynediad at y dull hwn yn gweithio a phrofiad cwsmeriaid drwy'r broses. Y nod yw sicrhau bod y rheolau sydd gennym ar gyfer darparwyr yn parhau i fod yn effeithiol ac ystyried ail-gymeradwyo'r ddau gynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau. | Datganiad Ch2 2025/26 |
| **Cynllun achredu Offer Cymharu Digidol.** Byddwn yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth reoleiddiol i gynllun achredu gwirfoddol Ofcom ar gyfer Offer Cymharu Digidol, gan sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cymharu rhwng gwahanol ddarparwyr. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod y safle(oedd) yn gweithio'n dda, a bod yr wybodaeth a ddarperir yn hygyrch, yn gywir ac yn gyfredol. | Parhaus |
| **Diogelu defnyddwyr agored i niwed.** Byddwn yn parhau i fonitro a yw darparwyr, gan gynnwys darparwyr llai, yn trin cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn deg, a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer Band eang.** Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y Rhwymedigaeth hon yn y dyfodol. | Parhaus |
| **Fforddiadwyedd.** Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar ddangosyddion fforddiadwyedd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau bob chwarter. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar argaeledd tariffau cymdeithasol a ffigurau defnydd fel rhan o'r adroddiad ar dueddiadau prisio. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Adrodd ar dueddiadau prisio mewn gwasanaethau cyfathrebiadau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol sy'n olrhain y prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr telegyfathrebiadau a gwasanaethau teledu drwy dalu, ac a delir ganddynt. | Adroddiad Ch4 2025/26 |
| **Cymharu gwasanaethau i gwsmeriaid.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiad gan edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid preswyl gan ddarparwyr telegyfathrebiadau sefydlog a symudol. | Adroddiad Ch1 2025/26 |
| **Monitro cydymffurfiaeth â rheolau Diogelu Defnyddwyr.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein hymyriadau diogelu defnyddwyr a'n mentrau gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr. | Parhaus |
| **Polisi dyfodol rhifo.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. | Parhaus |
| **Adolygiad Mynediad 080 a 116.** Rydym yn cynnal adolygiad o'r amodau mynediad roeddem wedi'u gosod mewn perthynas â tharddiad galwadau cyfanwerthol ar gyfer rhifau 080 a 116 am ddim, er mwyn deall canlyniadau gosod yr amodau ac ystyried a ddylid eu haddasu neu eu dirymu. | Ymgynghoriad Ch2 2025/26<br>Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Arallgyfeirio Gwerthwyr Telegyfathrebiadau.** Byddwn yn parhau i alluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi technoleg mewn amgylchedd sy'n fasnachol niwtral drwy lwyfan profi rhwydwaith mynediad radio agored Labordai Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN. Byddwn hefyd yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd gyda Llywodraeth y DU ar faterion arallgyfeirio, gan gynnwys Labordy Telegyfathrebiadau'r DU. | Adroddiad Ch1 2025/26 |
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar gyfer y DU ac adroddiad y pedair gwlad ym mis Rhagfyr 2024, sy'n ymwneud â rhwydweithiau sefydlog a symudol a diogelwch / cadernid rhwydweithiau, byddwn hefyd yn cynhyrchu diweddariad canol blwyddyn a diweddariad ar ddata cyflwyno rhwydweithiau arfaethedig. | Ch1 2025/26<br>a Ch3 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Monitro niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein gwaith o fonitro'r rheoliadau rhyngrwyd agored. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd cyffredinol band eang a brofir gan ddefnyddwyr yn ogystal ag unrhyw broblemau o ran cydymffurfio â'r rheolau gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. | Adroddiad<br>Ch3 2025/6 |
| **Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post.** Ar ôl cyhoeddi ein hymgynghoriad ym mis Ionawr 2025 ar gynigion i ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn 2025 a fydd yn nodi ein penderfyniad. | Datganiad<br>Ch2 2025/26 |
| **Fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post.** Byddwn yn ymgynghori ar ein dull gweithredu o ran fforddiadwyedd a phrisiau gwasanaethau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post, cyn i'r cap diogelu presennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. | Ymgynghoriad<br>Ch4 2025/26 |
| **Monitro'r post.** Byddwn yn parhau i fonitro effaith canllawiau a rhwymedigaethau yn y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion a thrin cwsmeriaid anabl. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn well a chynaliadwyedd tymor hir Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post. Yn ogystal â pharhau i adrodd ar ddata'r farchnad, ymchwil defnyddwyr a pherfformiad ariannol ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn ein hadroddiad monitro post blynyddol. | Adroddiad<br>Ch3 2025/26 |

## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Deddf Cyfryngau.** Byddwn yn parhau i weithio tuag at yr amserlenni sydd wedi'u nodi yn ein cynllun gweithredu ar sut byddwn yn rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith ac yn paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd ar draws gwahanol fannau rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o ymgynghoriadau, datganiadau, adroddiadau ac amrywiadau i drwyddedau yn 2025/26. Mae adran gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau ar wefan Ofcom yn rhoi diweddariadau rheolaidd i randdeiliaid wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gyfer pob rhan o'n gwaith isod. | Parhaus |
| **Rhan 1a: Diwygio darlledu gwasanaeth cyhoeddus y Ddeddf Cyfryngau.** Yn dilyn ymgynghoriadau ddechrau 2025, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer datganiadau polisi rhaglenni a gwaith comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol yn Ch2 2025. Ym mis Ebrill, byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad ar gwotâu gyda datganiad yn dilyn yn nes ymlaen yn 2025. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26<br>Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Rhan 1b: Digwyddiadau Rhestredig y Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r drefn Digwyddiadau Rhestredig a wnaed gan Ddeddf Cyfryngau 2024, ac yna bydd datganiad i ddilyn. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26<br>Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Rhan 2: Argaeledd ac Amlygrwydd y Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn ymgynghori ar ba lwyfannau ddylai fod o fewn cwmpas y drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd o dan y Ddeddf Cyfryngau ac yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26<br>Datganiad Ch2 2025/26 |
| **Rhan 2: Argaeledd ac Amlygrwydd y Ddeddf Cyfryngau.** Mae'n rhaid i ni hefyd ddynodi'r gweithredwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol sydd o fewn cwmpas y drefn newydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ar y fethodoleg y byddwn yn ei defnyddio i bennu dynodiad gweithredwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn Ch1 2025/26, a chyhoeddi ein penderfyniadau dynodi terfynol mewn datganiad yn Ch4 2025/26. | Datganiad Ch1 2025/26<br>Datganiad Ch4 2025/26 |
| **Rhan 2: Argaeledd ac Amlygrwydd y Ddeddf Cyfryngau.** Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein codau ymarfer ar sut gall llwyfannau gydymffurfio â'u gofynion amlygrwydd a hygyrchedd newydd yn ogystal â chanllawiau cysylltiedig yn Ch3 2025/26. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn Ch4 2025/26. | Ymgynghoriad Ch3 2025/26<br>Datganiad Ch4 2025/26 |
| **Rhan 3: Polisi comisiynu Channel 4 y Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau i Channel 4 ar baratoi ei ddatganiad polisi comisiynu a fydd yn berthnasol pan fydd yn sefydlu busnes cynhyrchu. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
| --- | --- |
| **Rhan 4a: Cod Fideo Ar-alw y Ddeddf Cyfryngau.** Rydym yn paratoi adroddiad ar weithrediad y farchnad fideo ar-alw yn y DU, gan ymateb i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried cynnwys adroddiad Ofcom cyn gwneud rheoliadau sy'n pennu'r gwasanaethau sydd wedi'u dynodi'n wasanaethau 'Haen 1'. Byddwn yn ymgynghori ar God Fideo Ar-alw drafft ar ôl y broses ddynodi. | Adroddiad Ch1 2025/26 Ymgynghoriad Ch2 2025/26 |
| **Adolygiad o fesurau diogelu cynulleidfaoedd fideo ar-alw.** Rydym wedi dechrau adolygu'r mesurau diogelu cynulleidfaoedd sydd gan ddarparwyr fideo ar-alw ar waith, i asesu a ydynt yn ddigonol i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed. | Adroddiad Ch2 2025/26 |
| **Rhan 4b: Cod safonau fideo ar-alw y gwasanaeth rhaglenni ar-alw a chod hygyrchedd fideo ar-alw.** Yn amodol ar benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddarparwyr Haen 1 dynodedig, byddwn yn ymgynghori ar god fideo ar-alw arfaethedig ac ar gyflwyno gofynion hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw o fewn y cwmpas. | Ymgynghoriad Ch2 2025/26 Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Rhan 5: Rheoleiddio Radio'r Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cyfryngau, yn enwedig gofynion gwybodaeth a newyddion lleol newydd ar gyfer radio masnachol lleol, yn ogystal â gofynion newydd ar gyfer amlblecsau radio digidol. Byddwn yn amrywio trwyddedau yn unol â hynny. | Datganiad Ch1 2025/26 |
| **Rhan 6: Gwasanaethau dethol radio y Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn nodi ein dull o bennu pa lwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais sy'n arwyddocaol yn ein barn ni. Byddwn wedyn yn ymgynghori ar ba lwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais y dylid eu dynodi o dan y Ddeddf Cyfryngau ac yn gwneud argymhellion arnynt mewn adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. | Datganiad Ch1 2025/26 Ymgynghoriad Ch2 2025/26 Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Rhan 6: Gwasanaethau dethol radio y Ddeddf Cyfryngau.** Byddwn yn ymgynghori ar broses i ddarparwyr radio roi gwybod i ni am y ffrydiau radio ar-lein a allai elwa o'r ddeddfwriaeth ac yn rhoi'r broses honno ar waith. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26 Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Rhan 6: Gwasanaethau dethol radio y Ddeddf Cyfryngau.** Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein codau ymarfer ar sut gall llwyfannau sydd wedi'u dynodi gydymffurfio â'u gofynion newydd o ran darparu gwasanaethau radio ar-lein yn Ch3 2025/26. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn Ch4 2025/26. | Ymgynghoriad Ch3 2025/26 Datganiad Ch4 2025/26 |
| **Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.** Ar ôl cyhoeddi ein hadolygiad o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y gorffennol a heriau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn 2024/25, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar sut mae cryfhau'r ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol erbyn diwedd Ch2 2025/26. | Adroddiad Ch2 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
| --- | --- |
| **Monitro perfformiad y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn y Cytundeb Fframwaith, y Fframwaith Gweithredu ac o dan y Drwydded Weithredu yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ein hasesiad o berfformiad y BBC ar draws ein dyletswyddau, yn cynnwys cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus a pharhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd wrth iddo foderneiddio ei wasanaethau. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Adolygiad Cyfnodol y BBC.** Mae'n rhaid i Ofcom gwblhau ail Adolygiad Cyfnodol cyn i Siarter y BBC ddod i ben ym mis Rhagfyr 2027. Byddwn yn adolygu perfformiad y BBC ac yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd pryder rydym yn eu nodi yn unol â'n dyletswyddau. | Adroddiad Ch4 2025/26 |
| **Canllawiau cystadleuaeth Adolygiad Canol Tymor y BBC.** Yn amodol ar gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith newydd rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC, byddwn yn diweddaru ein canllawiau ar asesu newidiadau i wasanaethau'r BBC. | Datganiad Ch1 2025/26 |
| **Cod Deunydd Ar-lein y BBC.** Yn amodol ar gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith newydd rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC, byddwn yn darparu Cod Deunydd Ar-lein y BBC sy'n adlewyrchu'r amcanion safonau sy'n sail i'r Cod Darlledu. Byddwn yn ymgynghori ar y Cod ac yn gweithredu rheolau newydd o fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith diwygiedig. | Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Sain BBC.** Byddwn yn cynnal asesiad cystadleuaeth y BBC o ran pedair gorsaf newydd arfaethedig ar DAB+ y BBC a newidiadau i BBC Radio 5 Sports Extra. | Datganiad Ch2 2025/26 |
| **Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau C4C.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4 sy'n nodi ei gynlluniau i gyflawni ei gylch gwaith a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ac yn adrodd ar ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. | Adroddiad Ch2 2025/26 |
| **Adolygiad o Ganllawiau'r Cod.** Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canllawiau diwygiedig ar y Cod Darlledu ochr yn ochr â'r datganiad terfynol ar y Cod Fideo Ar-alw. | Cyhoeddi Ch3 2025/26 |
| **Proses adnewyddu teledu lleol.** Cafodd deddfwriaeth newydd ei chymeradwyo gan y Senedd Brydeinig ym mis Rhagfyr 2024, gan roi'r pwerau i Ofcom ymestyn y trwyddedau presennol 12 mis ac i gwblhau'r broses adnewyddu lawn. Byddwn yn dechrau'r broses hon ar unwaith ar ôl y dyddiad cau statudol ar gyfer cyflwyno ceisiadau adnewyddu, sef 31 Mawrth 2025. | Datganiad Ch3 2025/26 |
| **Adolygiad o Weithdrefnau Cyffredinol.** Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar newidiadau i'r gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu. | Datganiad Ch2 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Monitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw.** Byddwn yn parhau i fonitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw ac yn ceisio cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ochr yn ochr ag adrodd ar ddata hygyrchedd darlledu. | Adroddiad Ch1 2025/26 |
| **Amrywiaeth wrth fonitro ac adrodd ar ddarlledu.** Yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid, byddwn yn parhau i gasglu data blynyddol ar gyfer ein hadroddiad ar amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr yn y DU. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Hysbysebu Bwyd Llai Iach.** Mae cyfyngiadau ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach yn dod i rym yn Ch3 2025/26. Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu a gorfodi. | Parhaus |
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sectorau teledu, fideo, radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y DU. | Adroddiad Ch2 2025/26 |

# Byw bywyd mwy diogel ar-lein

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Mynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon ar-lein.** Byddwn yn ymgynghori ar gynigion pellach i gryfhau ein Codau ar y niwed mwyaf sylweddol ar-lein, a fydd yn ychwanegu mesurau eraill at y llinell sylfaen a sefydlwyd yn ein Codau cyntaf. | Ymgynghoriad Ch1 2025/26 |
| **Amddiffyn Plant.** Byddwn yn cyhoeddi ein Codau Ymarfer Amddiffyn Plant a'n canllawiau asesu risg, gan nodi sut dylai darparwyr fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant. | Datganiad Ch1 2025/26 |
| **Sicrwydd oedran ar gyfer darparwyr pornograffi.** Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad Sicrwydd Oedran a Mynediad Plant ochr yn ochr â'r canllawiau terfynol ar gyfer Rhan 5 (stiwdios pornograffi), ar gyfer gwasanaethau Rhan 3 ar sicrwydd effeithiol iawn ac ar Asesiadau Mynediad Plant. Ar 16 Ionawr 2025, fe wnaethom lansio Rhaglen Gorfodi Sicrwydd Oedran i fonitro cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn, gan ddechrau gyda gwasanaethau Rhan 5. | Parhaus |
| **Diogelwch menywod a merched ar-lein.** Fe wnaethom ymgynghori ym mis Chwefror 2025 a byddwn yn cwblhau ein canllawiau yn nes ymlaen yn 2025, sy'n canolbwyntio ar y camau ymarferol y gall darparwyr eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnwys a'r gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
| --- | --- |
| **Dyletswyddau ar wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Byddwn yn cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio ac yn cyhoeddi hysbysiadau tryloywder drafft i ddarparwyr gwasanaethau, gan nodi gofynion ar gyfer adroddiadau tryloywder. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar Godau Ymarfer drafft a chanllawiau drafft ar ddyletswyddau ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau wedi'u categoreiddio. | Cyhoeddiad Ch2 2025/26 Ymgynghoriad Ch4 2025/26 |
| **Safonau cywirdeb sylfaenol ar gyfer technolegau achrededig.** Gan ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad, byddwn yn ceisio cwblhau ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar safonau sylfaenol o ran cywirdeb wrth ganfod cynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth a chynnwys cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSEA). Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaethau Rhan 3 ynghylch sut rydym yn bwriadu arfer ein pŵer newydd i gyhoeddi hysbysiadau i ddelio â chynnwys sy'n ymwneud â therfysgaeth/cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSEA) o dan Bennod 5 o Ran 7 o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. | Parhaus |
| **Rhaglen Llwyfannau Rhannu Fideos.** Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod i Lwyfannau Rhannu Fideos am ei bwriad i ddiddymu'r drefn. Bydd Ofcom yn cefnogi darparwyr Llwyfannau Rhannu Fideos i symud i'r drefn diogelwch ar-lein ac yn llunio adroddiad ar ddiwedd y drefn ar ôl diddymu. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Goruchwyliaeth.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr dethol. Mae'r trosolwg hwn sydd wedi'i dargedu yn cynnwys deall mesurau darparwyr yn fanwl, asesu pa mor dda maen nhw'n diogelu defnyddwyr, a gwthio am welliannau amserol lle bo angen. | Adroddiad Ch3 2025/26 |
| **Ffioedd.** Bydd y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei hariannu gan ffioedd a delir gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio y mae eu refeniw byd-eang cymwys yn cyrraedd neu'n rhagori ar drothwy penodol, ac nad ydynt wedi'u heithrio fel arall. Byddwn yn cyflwyno ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y trothwy Refeniw Byd-eang Cymwys yn Ch1 2025/26. | Parhaus |
| **Uwch-gwynion.** Mae'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg wedi ymgynghori ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer endidau i wneud uwch-gŵyn o dan adran 169 o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein; meini prawf sy'n gwneud uwch-gŵyn yn dderbyniol, a gweithdrefnau ar gyfer gwneud uwch-gŵyn. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cwblhau'r meini prawf hyn mewn is-ddeddfwriaeth, ac ar ôl hynny bydd Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau ynghylch uwch-gwynion. | Ymgynghoriad Ch2 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Gorfodi.** Erbyn diwedd Ch4 2025/26 bydd dyletswyddau sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon, amddiffyn plant a sicrwydd oedran i gyd mewn grym. Rydym eisoes wedi lansio rhaglenni gorfodi i amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys pornograffig ac i fonitro cydymffurfiaeth gwasanaethau â'u dyletswyddau newydd o ran asesu risg cynnwys anghyfreithlon a chadw cofnodion. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth ac yn defnyddio ein pwerau gorfodi i gymryd camau pan fo'n briodol a phan fyddwn yn gweld risgiau o niwed difrifol i ddefnyddwyr (yn enwedig plant). | Parhaus |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad<br>Ch3 2025/26 |

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Dyfarnu trwyddedau sbectrwm mmWave (26 a 40 GHz).** Rydym yn bwriadu agor ceisiadau ar gyfer arwerthu trwyddedau sbectrwm mmWave mewn ardaloedd dwysedd uchel ac rydym yn bwriadu rhoi trwyddedau i ddefnyddio'r sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol yn Ch3 2025/26. | Arwerthiant Sbectrwm<br>Ch3 2025/26 |
| **Galluogi mynediad at 1.4 GHz.** Byddwn yn penderfynu ar ddyluniad arwerthiant y sbectrwm 1.492 - 1.517 GHz ar gyfer defnydd symudol. | Datganiad<br>Ch4 2025/26 |
| **Defnyddio'r 6 GHz yn y dyfodol.** Byddwn yn penderfynu ar y cam cychwynnol o sicrhau bod y band 6 GHz Uchaf ar gael i wasanaethau Wi-Fi a symudol ei rannu (i awdurdodi Wi-Fi dan do pŵer isel). Byddwn yn penderfynu a ddylid sicrhau bod y 6 GHz isaf ar gael ar gyfer pŵer safonol a Wi-Fi awyr agored gan ddefnyddio cronfa ddata cydlynu amledd awtomataidd (AFC). | Datganiad 6 GHz Uchaf<br>Ch3 2025/26<br>Datganiad 6 GHz Isaf Ch4 2025/26 |
| **Galluogi mynediad at 1900 MHz. Byddwn yn penderfynu ar reolau defnyddio a thrwyddedu ar gyfer y sbectrwm 1900 MHz** i ddefnyddwyr seilwaith cenedlaethol fel gwasanaethau brys a chyfathrebiadau diogelwch rheilffyrdd. | Datganiad<br>Ch3 2025/26 |
| **Ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer pyrth lloeren.** Byddwn yn penderfynu ar ein dull gweithredu, ar ôl ymgynghori, i sicrhau bod sbectrwm ychwanegol ar gael ar gyfer defnydd o'r pyrth lloeren mewn bandiau Q/V ac E er mwyn diwallu'r galw cynyddol am gysylltedd lloeren. | Ymgynghoriad<br>Ch2 2025/26<br>Datganiad<br>Ch4 2025/26 |
| **Ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer cysylltedd lloeren awyrenegol a morol.** Byddwn yn ymgynghori ar ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer gwasanaethau lloeren awyrenegol a morol ym mand Ku a Ka, gan weithredu penderfyniadau WRC-23. Byddai hyn yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau band eang lloeren ar gyfer llongau ac awyrennau. | Ymgynghoriad<br>Ch3 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Diweddaru ein fframwaith awdurdodi lloeren.** Rydym yn adolygu ein fframwaith trwyddedu NGSO (a gyflwynwyd yn 2021) a'n polisi ffioedd trwyddedau porth lloeren. Byddwn hefyd yn diweddaru ein Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ffeilio Lloerennau, gan weithredu penderfyniadau WRC-19 a WRC-23. | Ymgynghoriad ar drwyddedu NGSO<br>Ch1 2025/26<br>Ymgynghoriad ar Ffioedd Trwyddedau Porth<br>Ch1 2025/26<br>Datganiad<br>Ch3 2025/26<br>Datganiad ar Reoli Ffeilio Lloerennau<br>Ch3 2025/26 |
| **Fframwaith rheoleiddio ar gyfer cysylltiad uniongyrchol rhwng lloeren a ffôn symudol.** Byddwn yn penderfynu ar fframwaith rheoleiddio i alluogi gwasanaethau lloeren i gyrraedd ffonau symudol yn uniongyrchol, lle mae cytundeb rhwng gweithredwyr lloeren a gweithredwyr symudol. Gallai hyn ymestyn darpariaeth symudol a darparu cadernid i rwydweithiau symudol daearol mewn sefyllfaoedd o argyfwng a thrychineb. | Datganiad<br>Ch3 2025/26 |
| **Symleiddio a diweddaru trwyddedau morol.** Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru rhai o'n trwyddedau morol i weithredu penderfyniadau Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd a symleiddio telerau ac amodau trwyddedau. | Ymgynghoriad<br>Ch3 2025/26 |
| **Adolygu ffioedd trwydded sbectrwm symudol.** Byddwn yn penderfynu ar lefel y ffioedd trwydded blynyddol rydym yn eu codi am drwyddedau sbectrwm symudol 900, 1800 a 2100 MHz, ar ôl ystyried y cais gan BT. | Datganiad<br>Ch2 2025/26 |
| **Adolygu'r sbectrwm gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE).** Rydym yn adolygu'r defnydd o sbectrwm gan PMSE sain a fideo i sicrhau bod ein penderfyniadau rheoli sbectrwm yn parhau i alluogi'r sector PMSE i sicrhau manteision i ddefnyddwyr ac economi'r DU. | Diweddariad<br>Ch3 2025/26 |

# Prosiectau trawsbynciol

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hargymhellion i annog llwyfannau ac eraill i ddarparu gwell cymorth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i'w defnyddwyr, mwy o werthuso effeithiolrwydd y cymorth hwnnw, a chyllid tymor hwy ar gyfer mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Cyhoeddiad<br>Ch2 2025/26 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion y DU. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig ar raddfa fach. | Adroddiad Ch1 2025/26 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth plant o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Plant a'u Defnydd o'r Cyfryngau, yn ogystal â'n hadroddiad ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc. | Adroddiad Ch1 2025/26 |
| **Adroddiad ar gael gafael ar newyddion.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymchwil flynyddol i'r ffordd mae pobl yn defnyddio ac yn meddwl am wasanaethau newyddion ar y teledu, ar y radio, mewn print ac ar-lein. | Adroddiad Ch2 2025/26 |
| **Marchnadoedd digidol.** Byddwn yn parhau i ystyried sut mae cystadleuaeth ddigidol a materion defnyddwyr yn effeithio ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio a'r ffordd orau o ymateb, gan gynnwys drwy gydweithio â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd / Uned Marchnadoedd Digidol. | Parhaus |
| **Dyfodol Dosbarthu Teledu.** Rydym yn helpu Llywodraeth y DU gyda'i gwaith parhaus ar Ddyfodol Dosbarthu Teledu, gan roi cyngor technegol ar faterion sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd, cynllunio a rheoli sbectrwm, y goblygiadau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r diwydiant teledu ehangach. | Cymorth technegol parhaus |
| **Trawsnewid digidol.** Y newid rheoledig oddi wrth hen wasanaethau sy'n sicrhau bod pobl yn parhau i elwa o rwydweithiau dibynadwy a mwy effeithiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai agored i niwed, yn cael eu cefnogi a'u diogelu drwy'r cyfnodau pontio hyn. Byddwn yn ystyried pa egwyddorion cyffredinol sydd ar gael ar draws trawsnewidiadau digidol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, i'r diwydiant ac i dwf economaidd. | Parhaus |
| **Deall effaith ein gwaith.** Byddwn yn sicrhau bod ein dull o arfarnu polisi yn dilyn yr arferion gorau, gan ddefnyddio ein canllawiau asesu effaith wedi'u hadolygu. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith drwy ein rhaglen barhaus o ôl-werthusiadau. | Parhaus |

# A3. Asesiad effaith

A3.1 Mae gan Ofcom ddyletswydd i gynnal asesiadau effaith er mwyn rhoi darlun i'n rhanddeiliaid o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi a dangos pam mae'r opsiwn a ddewiswyd yn cael ei ffafrio. Rydym yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, rydym yn ystyried a yw ein hymyriadau polisi yn gymesur ac yn briodol yn ystod ein proses ymgynghori.

A3.2 Fel sy'n cael ei adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, mae'n rhaid i Ofcom gynnal asesiadau effaith mewn achosion lle byddai ein canlyniadau'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Yn achos y Cynllun Gwaith Blynyddol, nid ydym wedi cynnal asesiad effaith gan fod pob polisi a'r holl gyhoeddiadau a rhaglenni gwaith cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun yn cael eu hasesu'n unigol fel y bo'n briodol.

A3.3 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn cyfeirio at bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig yma fel 'grwpiau cydraddoldeb'. Mae Deddf 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A3.4 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[8]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.5 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A3.6 Yn y Cynllun Gwaith hwn, rydym wedi nodi'r ystod eang o weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw yn y flwyddyn i ddod ar draws ein cylch gwaith. Mae buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn ganolog iddynt, gan gynnwys nifer o feysydd rydym yn disgwyl iddynt gael effaith gadarnhaol ar grwpiau cydraddoldeb. Rydym yn disgwyl y bydd ein holl waith ar wneud gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio yn fwy hygyrch, ar gael yn ehangach, yn fwy cystadleuol ac yn fwy diogel yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

---

[8] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

A3.7 Drwy gydol y flwyddyn, ac ar draws ein holl waith, byddwn yn parhau i asesu ac egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998 gan fabwysiadu'r dull gweithredu a nodir yn ein Canllawiau Asesu Effaith.